



Tudalen 7
CANOLFAN DINORWIG



Tudalen 9
NORMA PRICE



Tudalen 21
DDYDD GWYL DEWI



Tudalen 22
DIWRNOD Y LLYFR

ECO'r Wyddfa

Rhif: 409
Ebrill 2013
Pris: 50c

Pan gafodd Brenhines yr Wyddfa drwyn coch.



Drws Y Pantri ar agor eto.



Yn ystod y Pasg y llynedd yr agorodd y Pantri yn Llanberis ei ddrws am y tro cyntaf; menter newydd gan Ian a Wendy Hughes. Buan iawn yr enillodd y caffi ei boblogrwydd ymhlith pobl leol ac ymwelwyr oherwydd y croeso cynnes Cymreig a'r arlwy o gynnyrch blasus. Yna, daeth llifogydd Tachwedd, ac fel amryw o fusnesau eraill Stryd Fawr y pentref, bu'n rhaid cau, asesu'r difrod sylweddol, disgwyl am ymateb y cwmni yswiriant, a phenderfynu ail-ddechrau.

Ac ar 19eg o fis Mawrth, ail-agorwyd y caffi gan un o gyn sêr peldroed Cymru, Mickey Thomas. Cafodd wahoddiad i'r seremoni agoriadol oherwydd iddo ymweld â'r Pantri yn ystod haf y llynedd; mwynhau'r profiad a thrydar ei fodlonrwydd a'i ddiolchgarwch am y croeso.

Mae'r Pantri erbyn hyn wedi ei gynnwys yn Llwybr Te Gogledd Cymru – a hynny ym mlwyddyn gyntaf ei fodolaeth. Bellach mae'r caffi ar agor o ddeg y bore hyd bump y prynhawn – ond gellir ymestyn yr oriau, ac y mae Ian a Wendy yn fwy na pharod i drefnu bwyd i bartion gyda'r nosau hefyd. Mae lle i 25 eistedd i mewn, ac i 25 arall y tu allan – gan obeithio am well tywydd eleni! Maent hefyd yn arlwyo bwydydd i'w danfon allan, ac yn gwerthu stoc dda o gynnyrch lleol fel siytni, jam a mêl.

Gellir cysylltu ar 07979780406, ac y mae safle gwê wrthi'n cael ei sefydlu ar www.pantri.co.uk Mae gan Y Pantri safle ar Facebook a Twitter hefyd.

Yn ffenestr ffyrnt Y Pantri mae arwydd yn hongian sy'n gorchymyn "Bwytwch a byddwch lawen". Ac y mae ymweliad â'r caffi am baned, cacen neu bryd mwy sylweddol yn sicr o godi calon.

(Gyda diolch i Ray Wood am y llun)

Y brodyr Eric ac Emlyn Baylis o Lanberis gafodd y syniad o osod trwyn coch ar Frenhines yr Wyddfa, a hynny er mwyn codi arian ar ddiwrnod y trwynau coch: Comic Relief. Roedd yr ymdrech yn werth chweil, a chasglwyd dros £450 tuag at yr elusen. Mae'r ffaith i'r eira ddod yn fuan wedyn yn dangos y trwyn coch yn gliriach, a dyma'r tro cyntaf i amryw o drigolion yr ardal weld ffurf y 'frenhines'. Llongyfarchiadau ar antur ryfeddol a fu o fudd i elusen.

Pwy bia'r chwareli?



Dyna gwestiwn Alun Hughes mewn erthygl feddylgar ar dudalen 12. Mae'n codi nifer o gwestiynnau ynglŷn â pherchnogaeth ein hadnoddau naturiol lleol ac a yw'r defnydd cywir yn cael ei wneud ohonynt er ein budd ni, drigolion bro'r "Eco". Darllenwch, ystyriwch ac ymatebwch!

RHIF 409
Ebrill 2013
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn	Copi i law	Plygu	Ble
Mai	Ebrill 21	Mai 2	Deiniolen
Mehefin	Mai 19	Mai 30	Brynrefail

LLYTHYRAU

Ffermwyr Ifanc Eryri

Ugain mlynedd yn ôl (ia, ugain mlynedd yn ôl, coeliwch neu beidio) ym 1993 cyhoeddwyd y gyfrol Y Llinyn Aur i ddathlu hanner can mlynedd ers sefydlu ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri ym 1943. Cafwyd cyfrol hwyliog a chynhwysfawr oedd yn cwmpasu'r cyfnod mewn modd difyr a diddorol. Bu cyfraniad aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion yn hollbwysig i'w llwyddiant a chafwyd adlewyrchiad teilwng iawn o'r 'Dyddiau Difyr, Dyddiau Da'.

Ia, dyna chi, rydych chi'n llygad eich lle. Mae hi'n 2013 a syrpreis, syrpreis, ein bwriad yw dathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r mudiad yn Eryri a cheisio cyhoeddi cyfrol yr un mor apelgar â'r gyfrol honno a gyhoeddwyd ym 1993.

A dyna chi'n iawn drachefn. Ydan, rydan ni wir angen eich cymorth ac yn mynd ar eich gofyn unwaith eto am bob cyfraniad posib, boed bosteri neu luniau, atgofion neu hanesion sy'n berthnasol i'r ugain mlynedd diwethaf, hynny yw rhwng 1993 a 2013. Dyna esgus iawn i chi gael sbario carthu'r cytiau neu glirio'r gegin ambell noson er mwyn cael trychu drwy'r bocsys lluniau neu ysgrifennu ambell atgof ar ffurf pennill neu stori. Os na fedrwch chi wneud eich hun ceisiwch annog rhywun arall i wneud! Dyma dasg arall i chi hefyd. Rydym angen rhestr gyflawn o'r holl glybiau a sefydlwyd yn Eryri dros y 70 mlynedd diwethaf a byddem yn ddiolchgar iawn pe medrech ein cynorthwyo i lunio rhestr o'r fath a fyddai'n cynnwys enwau'r holl glybiau.

Gwn fod gwaith mawr o'n blaenau i gasglu deunydd ar gyfer y gyfrol ond mae'n eithriadol bwysig cofnodi cyfnodau hanesyddol ein mudiad er mwyn i ni, a phawb tu draw i ffiniau Eryri, gael cip ar werth 70 mlynedd o weithgarwch diflino y mudiad rhwng dau glawr a chael, unwaith eto, brofi rhin y rhialtwch hwnnw.

Hoffem dderbyn y deunydd erbyn 26ain Ebrill, os gwelwch yn dda, a hynny drwg e-bost i Eryri@yfc-wales.org.uk neu drwy'r post i Swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri, Uned 12, Parc Glynllifon, Ffordd Clynnog, Caernarfon, Gwynedd LL54 5DU.

GAIR GANY GOLYGYDD

Eitemau hwyr – a dyddiad cau!

Cyrhaeddodd nifer o adroddiadau yn hwyr ac ambell un yn hwyr iawn ar gyfer y rhifyn diwethaf. Doedd dim posib eu cynnwys. Mae'n fwy na thebyg nad ydynt wedi eu cynnwys yn y rhifyn hwn 'chwaith, oherwydd mae'r 'newyddion' bellach wedi 'heneiddio'!

Os gwelwch yn dda, a fydddechystal a chadw'r dyddiad "Copi i law" mewn cof. Nos Sul yw'r dyddiad cau. Caiff y newyddion a'r adroddiadau a dderbyniwyd eu hanfon i'w teipio ar fore Llun. Caf innau'r holl gynnyrch yn ôl fel arfer ar brynghawn Iau, ac erbyn bore Gwener bydd cynnyrch y mis yn llaw'r gosodwr. Y cwbl fydd angen ei wneud dros y Sul fydd mân newidiadau a chywiriadau cyn anfon yr "Eco" i'r wasg ar y bore Llun canlynol.

'Cyfrifiad' diwylliannol.

Y mis diwethaf cyhoeddwyd canlyniadau Cyfrifiad 2011 am bentrefi'r fro. Cymharol hawdd yw cofnodi niferoedd y boblogaeth a gwybodaeth ffeithiol amdani. Mater arall yw ceisio cofnodi pa mor ddiwylliedig yw trigolion yr ardal. Bu Rol Williams o'r Waunfawr yn ddiwyd yn ystod misoedd y gaeaf yn cysylltu ac unigolion o fewn gwahanol bentrefi'r fro gan geisio casglu ffeithiau fyddai'n rhoi darlun gweddol gywir o weithgareddau diwylliannol y fro. Cyhoeddir y rhan gyntaf o'i arolwg yn y rhifyn hwn. Bydd y gweddill yn cael eu cyhoeddi y mis nesaf. Mae'n sicr y bydd cryn drafod ar y canlyniadau, a chroeso i unrhyw un ymateb. Anfonwch eich sylwadau at y golygydd. Gyda diolch i Rol am ei waith a'i ymroddiad.

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £13.50

- gwledydd Ewrop £33.50 - gwledydd eraill £42.50

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839

neu olwenwaen@yahoo.co.uk

ERHODDION

£20: Er cof am Huw Griffiths, 7 Llainwen Isaf, Llanberis; Mair a'r teulu, er cof am James Gordon Jones (Jim Bwtch), Llanberis; Sheila, 24 Bro Rhos, Bethel.

£10: Er cof am Bert Parry, Sycharth, Preswylfa, Llanberis; Er cof am Lizzie Pugh, 6 Stryd Siarlot, Llanberis; Griff ac Enid Jones, Bryn Celli, Talysarn.

£5: Alan Pritchard, Dolafon, Cwm y Glo.

FFORWM HANES CYMRU

Annwyl Olygydd,

STONDIN FFORWM HANES
CYMRU AR FAES PRIFWYL
SIR DDINBYCH A'R
CYFFINIAU - AWST 2013

Ar ran Pwyllgor Gwaith y Fforwm Hanes, gofynnaf yn garedig i chi gyhoeddi'r llythyr hwn yn rhifyn cyfredol o'ch Papur Bro.

Dymuna'r Fforwm Hanes wahodd Cymdeithasau Hanes a Threftadaeth o Ogledd Cymru, ac yn arbennig o ardal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Ddinbych a'r Cyffiniau eleni, i archebu sgrin/sgriniau i arddangos gwybodaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog amdanynt eu hunain a'u gweithgareddau ar stondin y Fforwm.

Am fanylion sut i archebu lle ar y stondin cysyllter un ai â Simon Moffett ar: simon_moffett@yahoo.co.uk neu â John Davies ar: sion_cwm_hir@hotmail.com cyn 18 Ebrill 2013.

Diolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

Tegid Roberts.

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod mis Chwefror o'r gangen gwahoddwyd Gwen Owen, Glynllifon i arddangos y grefft o ffeltio. Daeth ag arddangosfa o'i gwaith i'r cyfarfod a edmygwyd gan bawb.

Cynhaliwyd dau gyfarfod blynyddol yn ddiweddar. Dan lywyddiaeth Pat Jones, Llywydd y Sir, bu cyfarfod llwyddiannus adran Gwynedd/Arfon o'r Ffederasiwn yn Ysgol Brynrefail.

Cymerodd y gangen leol ran hefyd yng Nghyfarfod Blynyddol Grŵp Eryri pryd y cafwyd cyfle i adrodd am weithgareddau'r flwyddyn a aeth heibio. Ar ddiwedd y noson cafwyd adloniant gan Leisiau Lliwedd.

Roedd y dathliad Gŵyl Ddewi eleni gyda phryd o fwyd yn Ngwesty'r Bull, Pentraeth. I orffen y noson cafwyd cwis hwyliog dan ofal Gwen a Carol.

Cynhaliwyd Noson Gwis y Sir yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, a'r gangen leol gyda dau dîm a wnaeth gyfrif da ohonynt eu hunain. Mwynhawyd pryd bwyd i ddiweddu'r noson.

Caban Yn dilyn llwyddiant nosweithiau cymdeithasol dros fisoedd y gaeaf gyda Chwis a Phryd Bwyd (os dymunir) bydd y cyfarfodydd yn parhau i'r dyfodol a'r Noson Gwis nesaf fydd nos Lun, Ebrill 1af, y Cwis i ddechrau am wyth wedi'r pryd bwyd.

Yr Eglwys Bresbyteraidd Gwasanaeth Dydd Gweddi Chwirydd y Byd Derbyniodd chwirydd yr Eglwys wahoddiad eleni i ymuno gyda chwirydd y chwaer eglwys yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ar gyfer y gwasanaeth arbennig hwn. Cymerwyd rhan gan Jennie Angharad Roberts, Verna Jones, Ifanwy Jones a Lowri Prys Williams.

Argymhellion Cydgynulliad yr Eglwys Cyfamodol yng Nghymru Ers blynyddoedd bellach bu'r Eglwys Bresbyteraidd yn un o bum enwad yng Nghymru a ymrwymodd i weithio tuag at sefydlu 'Yr Eglwys yn Uno yng Nghymru'. Fel cynrychiolydd i'r Cydgynulliad gyfarfu yn Aberystwyth yn ddiweddar, rhoddodd ein gweinidog, Y Parch Marcus Robinson, arweiniad i drafodaeth i ystyried yr argymhellion a'r dogfennau perthnasol ar gyfer sylwadau cychwynnol mewn Pwyllgor Gwaith arbennig o Henaduriaeth Arfon a gynhaliwyd nos Lun, Mawrth 18fed. Trosglwyddir y sylwadau i sylw Cymdeithasfa'r Gogledd a gynhelir ym Mlaenau Ffestiniog ym mis Ebrill.

Cofion Mae ein cofion fel aelodau at Bertie Roberts, Llwyncoed Bach, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad buan iddo.



Mae aelodau Ffederasiwn Gwynedd-Caernarfon o Sefydliad y Merched yn pasio eu sgiliau coginio ymlaen i famau ifanc ac yn eu dysgu sut i baratoi bwydydd lleol, maethlon, cost isel. Maent yn cael eu hariannu gan y Cynulliad i gynnal cyrsiau "Dewch i Goginio" yn y sir. Maent yn barod wedi cynnal cyrsiau yn Neiniolen a Phenmaenmawr ac ar hyn o bryd yn Llanberis. Cyrsiau chwe wythnos yw'r rhain am ddwy awr bob wythnos.

Mae hyfforddwy Sefydliad y Merched yn dangos i'r merched sut i baratoi bwydydd a beth i wneud gyda darnau rhad o gig. Maent yn cael mynd a'r bwyd maent wedi ei baratoi adref i'w teuluoedd. Mae crèche proffesiynol ar gael am ddim i'w plant sydd o dan oed ysgol. Mae'r ymwelydd iechyd wedi bod o help mawr ac yn dweud fod y mamau ifanc yn parhau gyda'u coginio ar ôl i'r cwrs orffen.

Y gobaith yw cynnal cwrs arall ym Methesda cyn i'r cyllid orffen. Hefyd mae'r Ffederasiwn wedi rhoi cais i mewn am Grant Cymunedol Diwrnod y Trwynau Coch i redeg cwrs arall yn Neiniolen.

Diolch i Mr Ken Jones a Pwyllgor y Ganolfan Llanberis am gael defnyddio'r Ganolfan ar gyfer y cyrsiau.

Oedfaon Ebrill	
7 am 5.30:	Canon Idris Thomas, Deiniolen
14 am 5.30:	Mr Dafydd Iwan, Caethro
21 am 2.00:	Parch Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan
28 am 2.00:	Parch Olwen Williams, Tudweiliog.

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyhaeddchw Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*

AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

dafydd iwan a'r band

YN FYW!

DOLBADARN

LLANBERIS

NOS

SADWRN

mai 11

Tocynnau (£7.50) ar gael ar y drws neu o flaen llaw drwy gysylltu ag Eurig 07930148999 neu Gwilym 07979740676. Gostyniad o 20% i grwpiau o 5!

Elw tuag at apêl cancer lleol.

3

Yr Ysgol



Gala Nofio Llongyfarchiadau i sgwad gala nofio'r ysgol am ennill y darian unwaith eto eleni. Roedd y plant yn dangos sgiliau nofio penigamp!

Gŵyl Ddewi Croesawyd Clwb Bro Bethel ac aelodau o'r Llywodraethwyr i'r ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 1af. Roedd yr ysgol wedi paratoi cyngerdd i'r gynulleidfa ac roedd blwyddyn 6 wedi coginio bara brith ar eu cyfer! Roedd pawb wedi cael prynhawn i'w gofio.

Coedwigoedd Glaw Cafodd yr Adran Iau gyflwyniad bywiog am bwysigrwydd gofalu am goedwigoedd glaw. Roedd pawb wedi dysgu am bwysigrwydd gwarchod ein planed. Roedd hyn yn ran pwysig o gynllun Ysgol Werdd yr ysgol.

Techniquet Cafodd plant yr Adran Iau gyfle i arbrofi yn ymarferol mewn gweithdy Mathemateg a Gwyddoniaeth yn ddiweddar a oedd wedi cael ei drefnu gan y cwmni Techniquet. Roedd y plant wrth eu bodd!

Dawns i Bawb Mae Colin yn ymweld yn wythnosol ar ddydd Mawrth i roi sesiynau dawn i'r Adran Iau. Cynigir cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn dawnsfeydd aml-ddiwylliannol.



Gŵyl Athletau Arfon Llongyfarchiadau i sgwad athletau'r ysgol am ddod yn 3ydd yn ddiweddar yn yr ŵyl athletau a gynhaliwyd yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon.

Masnach Deg I godi ymwybyddiaeth mewn Masnach Deg cynhaliwyd bore coffi ac fe fu nifer o'r plant yn cymryd rhan mewn cyflwyniadau yn ystod y bore. Bu'r ysgol i gyd yn gwneud nifer o weithgareddau masnach deg yn ystod y "pythefnos masnach deg". Comic Relief Cafodd pawb hwyl ar ddiwrnod Comic Relief yn gwisgo dillad coch a thrwynau coch. Cafodd y plant gyfle i ddiddanu ei gilydd trwy ddweud nifer o jôcs yn y prynhawn! Diolch i Anti Nia am baratoi cinio "COCH" i'r plant hefyd!! Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn gwerthu'r trwynau coch!

Priodas yn Nosbarth Lliwedd Fel rhan o'u gwaith thema yn nosbarth Lliwedd, fe gafodd y dosbarth ddathlu priodas! Roedd y pâr priod yn ddisgyblion o'r dosbarth, gyda gweddill y plant yn westeion ar y diwrnod pwysig! Cafodd y "briodas" ei chynnal gan y Parchedig Marcus Robinson yng Nghapel Cysegr. Roedd brecwast priodas blasus dros ben yn eu disgwyl ar ôl y seremoni!



YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:

FUW
UNDEB AMAETHWYR
CYMRU

**Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig**

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Cist Gymunedol

**Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianedobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

*sporthales
chwaraeon cymru*

www.gwynedd.gov.uk

Clwb Bro Bethel Dathlu Gŵyl Ddewi fu hanes yr aelodau y mis yma yng nghwmni plant yr Ysgol, a hynny ar wahoddiad y Pennaeth a'r Staff. Roedd nifer dda o'r aelodau yn bresennol a mwynhawyd gwledd o adloniant gan holl blant yr Ysgol yn eu tro yn cyflwyno eitemau oedd yn ymwneud a'r Wyl, sef llefaru, canu, dawnio, a chyflwyniadau offerynnol. Yn ychwanegol at hyn i gyd roedd Staff yr Ysgol wedi sicrhau fod pawb yn cael paned a chacen tra'n gwrandao ar y cyngerdd.

Wrth ddiolch ar y diwedd mynegodd Llywydd y Clwb, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson, fod gan yr Ysgol fôr o dalent, ac yn sicr mae ganddynt le i ymfalchio yn y doniau sydd gan y plant. Cyflwynwyd rhodd ariannol i'r Ysgol gan yr aelodau fel gwerthfawrogiad o'r cyfan. Bydd y cyfarfod nesaf bawn Mawrth, Ebrill 2il, yn festri Bethel gyda Gareth Roberts, Deiniolen.

Y Gymdeithas Lenyddol Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Mawrth oedd Gareth Haulfryn Williams. Yn dilyn croeso gan Lywydd y noson, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo ar y testun 'Cyffro'r Rheilffyrdd'. Bu'n sôn am yr adeg yr adeiladwyd nifer o'r rheilffyrdd yn bennaf yng ngogledd Cymru a chawsom flas ar nifer o ddigwyddiadau a ddaeth yn amlwg dros y blynyddoedd. Cyfeiriodd yn arbennig at ddylanwad y rheilffyrdd ar arferion cymdeithasol yn dilyn dyfodiad y rheilffyrdd, a rhoddodd sylw fel yr oedd nifer o feirdd y cyfnod wedi canu am y rheilffyrdd.

Diolchwyd iddo yn gynnes iawn gan Jenkin Griffiths. Bydd gweithgareddau'r Gymdeithas yn diweddu am eleni gyda Swper pen tymor a hynny yn y Black Boy, Caernarfon. Cysylltwch

â Nora Parry neu Sheila Roberts am gopi o'r fwydlen a gofynnir i'w dychwelyd erbyn Ebrill 8fed ynghyd â'r arian. Trefnir bws i fynd i'r swper.

Diolch Dymuna Sheila, 24 Bro Rhos, ddiolch i'w chymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd, yr anrhegion a'r blodau a gefais ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd y doctoriaid a'r nyrsys ar Ward Ogwen a fu mor garedig. Ond, yn arbennig i Iwan a Catrin, Erin, Ffion a Manon a fu'n gefn i mi ac yn tendiad arnaf mor ddi-lol.

Merched y Wawr Cynhaliwyd cinio dathlu Gŵyl Ddewi y Gangen yn Nhafarn y Bachgen Du yng Nghaernarfon ar nos Fercher, 13 Mawrth 2013. Croesawyd pawb gan y llywydd, Glenys, a longyfarchodd Eirlys Sharpe ar ddathlu penblwydd arbennig, a lolo, mab Ellen Ellis, ar ei lwyddiant i ddod yn Beiriannydd Sifil Siartredig. Jen gafodd rif lwcus y dyddiadur, a'r wobr o ginio Sul i ddau yn Yr Hen Lechen, Y Felinheli, a diolch iddynt am fod mor barod i roi'r wobr. Enillwyd y raffl gan Anne Lewis, Gwyneth Jones (Pentir), Eryl Roberts, Gwyneth Williams a Mair Williams. Cafwyd adloniant yn gwrandao ar Mr. Idris Morris Jones yn rhoi sgwrs a chwarae offerynnau (rhai gwahanol iawn!), a'r diwedd glo oedd darn yn cael ei chwarae ar li. Diolchwyd iddo ar ran y gangen gan Mair Price.

Parti Cerdd Dant (Adran) Mae pawb o'r aelodau: Heledd, Elin, Gwenllian, Tomos, Bedwyr, Sion Arfon, Osian, Ywain, Ilan, Celt a Ioan yn dymuno diolch i Anti Manon am ein dysgu eto eleni, ac am yr hwyl a gawsom yn yr ymarferion. Diolch hefyd i Anti Rita am ei help. Yn ogystal, diolch i Yncl Seiriol am adael i ni gynnal yr ymarferion yn festri Capel Bethel.

Polisi Caeau Chwarae Di-Fwg Ar Ddydd Mawrth, 12fed o Fawrth, cynhaliwyd lansiad swyddogol Gwynedd o bolisi Caeau Chwarae di-fwg. Gwahoddwyd Llysgenhadon Efydd ysgolion Gwynedd i fynychu'r lansiad.



Ifan Thomas a Cara Jones - y ddau o Gaeathro - wedi iddynt gynrychioli Ysgol Bontnewydd yn y digwyddiad.

Gwasanaethau y Capel

Ebrill 7ed: Y Parch Marcus Robinson am 2 o'r gloch

Ebrill 21ain: Y Parch Iorwerth Jones Owen am 2 o'r gloch

Llywydd y mis fydd Mr Huw Ceiriog.

Tynfa Misol. Dyma enillwyr mis Chwefror: £40: Eric a Beryl Roberts (105) 11 Erw Wen; £25: Selwyn Hughes (95) 7 Erw Wen; £15: Mark a Lynda Jones (80) Tŷ Newydd; £5: Harriet Roberts (54) 5 Erw Wen.

Clwb Merched Caeathro

Ar nos Wener, y cyntaf o Fawrth, buom ym Mwyty Lleu, Dinas Dinlle, i gyd ddathlu Gŵyl Ddewi Sant. Rhoddodd Marian, y Llywydd, air o groeso i ni. Roedd y pryd bwyd a'r cynhesrwydd yn arbennig a chafwyd noson bleserus a hwyliog. Mair Parry oedd yn cyflwyno gwobr y raffl, a'r enillydd gwerthfawrogol oedd Nia.

Ar nos Iau, Mawrth 21ain, byddwn yn croesawu Gwilym Evans o ardal Llanberis atom, a bydd yn rhoi i ni tipyn o hanes 'Olew Morus Evans'. Edrychwn ymlaen yn fawr.

Llongyfarchiadau.

Llongyfarchiadau i Gwen Angharad, Dolgynydd, fu'n cynrychioli Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri yn Abertawe ar yr ail o Fawrth, lle daeth o fewn trwch blewyn i ennill y brif wobr am siarad cyhoeddus. Tipyn o gamp yn wir. Da iawn ti, Gwen. Cyn i'r Eco ddod

o'r wasg eto bydd Gwen a'i chwaer Manon wedi cymeryd rhan yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru yn Llanelwedd fel aelod o dîm dan 21 oed Eryri. Gobeithiwn y daw llwyddiant pellach i'ch rhan.

Taith Hanes i Berlin a Gwlad Pwyl. Bydd Gwion Eryl, Lowri Ceiriog ac Aled Evans yn treulio pum niwrnod yn yr Almaen a Gwlad Pwyl ar daith hanes arbennig iawn wedi ei threfnu gan Adran Hanes Ysgol Syr Hugh Owen. Pob hwyl i chi ar y daith!

Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Martha Ceiriog, Malan Dorcas Hughes, Siôn Dafydd a Siôn Ynyr o Gaeathro sydd yn aelodau o Fand Ysgol Bontnewydd a ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod y Sir ac yn mynd i Sir Benfro fis Mai. Hefyd i Martha Ceiriog a gafodd lwyfan yn yr Eisteddfod Sir ar unawd Bl.5 a 6. Daeth parti cerdd dant Ysgol Bontnewydd hefyd yn ail, yn cynnwys tair o'r pentref, sef Malan, Martha a Erin Mair Hughes. Da iawn chi i gyd am wneud mor dda.

Pentref Taclus Cyn dyfod tyfiant y Gwanwyn, beth am i bawb sy'n cerdded o gwmpas y pentref gario bag a maneg i godi sbwriel o'r cloddiau a defnyddio ein bocsys glas i y ailgylchu y sbwriel.

Helfa'r Pasg Bydd yr helfa yn cychwyn o flaen y Bryn Gwna am 10.45 bore Sul y Pasg.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



Lois Regan

Llongyfarchiadau i Lois Regan, gafodd ei dewis yn ddiweddar fel rhan o garfan merched Cymru dan 17 oed i chwarae mewn dwy gêm gyfeillgar yn erbyn Lloegr yn St George, Burton Upon Trent.

Mae Lois, sydd yn 14 mlwydd oed, wedi chwarae yn barod i'r garfan dan 16 oed ond hwn oedd ei chap cyntaf i'r tîm yma. Er ei bod yn un o'r rhai ieuengaf yn y garfan hon, ac yn gymwys i chwarae o dan y ddau oedran, hwn fydd ei phrif garfan o hyn ymlaen.

Roedd y gêm gyntaf yn erbyn Lloegr ar ddydd Mercher, Chwefror 20 ond chafodd Lois dim gêm y tro hwnnw, er ei bod wedi cynhesu i fyny ac yn barod i fynd ar y cae, chwythwyd y chwib olaf cyn iddi gael y cyfle. Y sgôr terfynol oedd 1-0 i Lloegr.

Cafodd chwarae o ddechrau yr ail gêm ar y dydd Gwener, Chwefror 22, a chael chwarae am y 70 munud cyntaf, ond sgoriodd Lloegr unig gôl y gêm yn y munudau olaf, colli eto 1-0. Dywedodd y rheolwr, Jarmo Matikainen, ei fod yn bles iawn hefo perfformiad y tîm a'u bod wedi chwarae yn dda iawn.

Cymdeithas Lenyddol Undebol Cyfarfu aelodau'r Gymdeithas yn Nhŷ Elidir nos Lun, 25 Chwefror. Cyflwynodd y Llywydd, y Parchedig John Pritchard, ein gŵr gwadd am y noson, sef Mr Barry Davies, Llanberis.

Un o hogiau ni ydyw Barry, wedi ei eni a'i fagu yma yn y pentref. Swyddog Morwrol gyda Chyngor Gwynedd ydyw wrth ei waith bob dydd ac mae hefyd yn gwarchod parciau gwledig Padarn a Glynllifon.

Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo gyda chymorth lluniau cyfrifiadurol. Hyfryd oedd gweld y golygfeydd prydferth a'r traethau ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

Diolchwyd iddo yn gynnes gan y Cynghorydd Elfed Williams.

Diolch Hoffai Mrs Beryl Griffith ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a gofawyr am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd diweddar yn 98 mlwydd oed.

Cafodd ddiwrnod arbennig iawn o ganlyniad i'r rh caredigrwydd.

Clwb Cant Ysgol Gwaun Gynfi Enillwyr Ionawr oedd (21) Tony Fleming; (44) Gail Warrington; (4) Margaret Jones, Llainwen.

Chwefror: (136) Ffion Haf Richardson; (95) Glenys Owen; (88) Hilda Parry.

Mawrth: (8) Annie Edwards; (28) Doris Owen; (26) Margaret Roberts.

Clwb Pêl-droed Ieuenctid

Hoffai'r Clwb ddiolch unwaith eto i fynychwyr Bingo Ty Elidir am eu haelioni tuag at y clwb. Gwerthfawrogi eu cefnogaeth yn fawr.

Lleisiau Llanbabs Gyda'r daith i'r Wyl Ban-Geltaidd eto o'u blaenau cafwyd noson o godi arian yng Nghlwb Rygbi Bangor ar nos Sadwrn, 9 Mawrth. Cafwyd bwyd ardderchog gan John ac Alwena Jones, Y Dyn Cig, ac yna adloniant i ddilyn gyda Hogia'r Wyddfa ac Annette Bryn Parri; yr unawdydd Alaw Tecwyn; Lleisiau Llanbabs a Lyndsey Vaughan Fleming, ac unawd ar y piano gan Catrin Llewelyn. Cafwyd noson hynod ddifyr a chodwyd swm da iawn o arian tuag at y daith.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at y noson ac i bawb sydd hefyd wedi cyfrannu tuag at y daith i Iwerddon. Dymunwn bob llwyddiant i'r criw eto eleni draw yn Iwerddon.

Eisteddfod yr Urdd Dydd Sadwrn, Chwefror 23, cynhaliwyd Eisteddfod Cylch Arfon yn Ysgol Brynrefail. Adran Bentref Deiniolen oedd yn gyfrifol am drefnu'r diwrnod a diolch i Mrs Eleri Bean am ei holl waith yn trefnu. Cafwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus a threfnus

Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4: 3ydd Dafydd Bean; Parti Unsain Adran: 1af; Grŵp Llefaru Adrannau: 1af; Parti Cerdd Dant Adrannau: 1af; Cân Actol i adrannau ac ysgolion hyd at 100 o blant: 1af - Jyngh Llanbabs

Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor. Daeth llwyddiant unwaith eto gyda'r Gân Actol a'r Parti Cerdd Dant yn ennill y wobr gyntaf. Daeth y partion Llefaru ac Unsain yn 2il. Pob lwc i bawb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hoffai'r plant ddiolch i Eirlys, Eleri, Lyndsey a Mr Ab Elwyn am eu hyfforddi.

Llongyfarchiadau Estynnwn ein llongyfarchiadau i Osian Trefor Hughes am ei holl lwyddiant yn Eisteddfodau'r Cylch a'r Sir yn ddiweddar. Cafodd y wobr gyntaf yn y Cylch yn y gystadleuaeth Llefaru Bl 3 a 4; 2il yn yr Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4 a 3ydd yn yr Alaw Werin Bl 3 a 4. Yn yr Eisteddfod Sir cafodd y wobr gyntaf yn yr Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro.

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

CHIROP

RICHARD THOMAS

GALWADAU I'R CA

Cynylltwch Symudol 0797 63

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU Conservatori UPVC

Trwsio Unedau "DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 89 mlwydd oed ar 4 o Fawrth. Gobeithio iddi fwynhau ei diwrnod yng nghwmni ei theulu. Roedd Ann wedi dod adref o'r de ac yn brysur iawn yn paratoi parti iddi yn y Cartref. Dymunwn well iechyd iddi gan i'w hiechyd fod yn ddigon bregus dros y gaeaf. Dymunwn fel ardal adferiad iechyd iddi i'r blynnyddoedd a ddel a llawer pen-blwydd arall.

Y Ganolfan Y cyfan a allaf ddweud wrthyfch yw fod y Swyddfa Addysg yn mynd i werthu y Ganolfan, nid ar hyn o bryd ond yn nes at ddiwedd y flwyddyn. Mae gennym le mawr i ddiolch i dri o blant yr ardal sydd wedi ein gadael erbyn hyn, sef y diweddar Emmanuel Huw Jones, Cae Canol; Hugh Thomas, 1 Bro Elidir a Rennell Williams, Tan y Fron, am weithio yn galed iawn i'r ardal gael cadw y Ganolfan wedi i'r ysgol gau yn 1969. Hefyd diolch i'r Swyddfa Addysg am gadw eu rhan yn y fargen. Credaf fel ardal ein bod wedi bod yn hynod o lwcus.

Diolch Dymuna Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, ddiolch o galon i Ann a Iolo am baratoi parti pen-blwydd iddi ac i bawb o'i theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian, blodau, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 89. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Canolfan Dinorwig



Mewn ymateb i'r erthygl yn rhifyn Mawrth o Eco'r Wyddfa, dymuna Ymddiriedolwyr Menter Fachwen wneud y datganiad canlynol.

Am resymau na ellir eu hosgoi y tu allan i'n rheolaeth, a gyda thristwch didwyll, ni all Menter Fachwen fynd ymlaen gyda throsglwyddiad Canolfan Dinorwig o Gyngor Gwynedd.

Carwn ddiolch i Gyngor Gwynedd a Phwyllgor Canolfan Dinorwig am y gwaith caled a wnaed i geisio gwneud hyn yn bosib, ond er yr ymdrechion gorau gan bawb, clywsom yn ddiweddar na fyddai'r trosglwyddiad yn bosib.

Rydym hefyd yn falch o gael y cyfle i ddiolch i Gymuned Dinorwig am y croeso cynnes a roddwyd i'n gweithwyr a'n buddiolwyr pryd roeddem yn defnyddio'r ganolfan yn dilyn y gorlifiad i'n heiddo yng Nghwmyglo ar yr 22ain o Dachwedd. Bu'n bleser gwneud defnydd o'r adeilad a threulio amser rhyfeddol yn Ninorwig.

Yr Hen Ysgol

Ysgol Cymdogaeth – yn nannedd y gwynt,
ysgol ar allt – ar drugaredd y bunt.

Ysgol Cefn Gwlad – un unigryw – dau lawr,
seler, cegin, tri dosbarth a'r Rŵm Fawr...

Athrawon diwyd – ambell Sgwyl mewn co'
a'r genod a'r hogia – 'jermoniaid' bro.

Deuent o Lan Gors, Tan Ffordd, Pant, Beudy Mawr -
Muria Gwynion, Bedwargoed – neu i lawr

o waelodion Fach-Wen – a'r gelltydd serth -
Maes Eilian, Bro Elidir – heb na pherth

na llwyn i ymochel pan fyddai'r storm
'n chwipio'n ddiostur – gwlychu fyddai'r norm.

Lleisiau – wynebau – ar chwâl dros y byd
lleisiau – wynebau – presennol o hyd ...

Ynddi caent fwy na'r tablau a'r pin dur
(wedi llechan yn infans!) - onid mur

oedd hon – i 'wneud yn dda' rhag gwaith
llybeindio'n y llwch – y frest gaeth a'r graith?

Yma bu'r tadau – a'r mamau'n eu tro
hwythau'n eu cyfnod – gaent 'fwydo' mewn bro,

mewn iaith a chystrawen – lle bynnag y bônt,
eu stamp oedd amlwg – ac o'r lle y dônt!

Plant perthyn i le, a pherthyn yn oll,
y perthyn sydd heddiw – bron, bron ar goll.

Wedi blwyddi'r mowldio – o oes i oes
erydodd niiferoedd – daeth gwyntoedd croes ...

Aeth plant yr hen ysgol i gymdogaeth gre'
i lawr o'r mynydd ac 'yn well eu lle'?

Os hoelen mewn arch oedd hyn oll i'r fan
arall gyfeiriwyd ei phwrpas a'i rhan.

Daeth gwerin y gelltydd – yn ystod y dydd
yma i fwynhau llu gweithgareddau rhydd.

Ac ambell fin nos – wedi staen y gwaith
ymlacio, snwcera – ail deimlo'r ffaith

eu bod o hyd yn 'perthyn' i ardal hen
y gwerthoedd mewn Sul, a chanu – a llên.

Norman Closs

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.ffmpegia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Pen-blwydd Arbennig
Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Mr Gwilym Williams, Bron Eifion, Ffordd yr Orsaf ar ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed. Bydd y diwrnod yn llawn ymweliadau gan eich ffrindiau i ddymuno yn dda i chwi. Pob hwyl.

Hafan Elan Fe aeth trigolion Hafan Elan ynghyd â rhai o'u ffrindiau sydd yn mynychu'r Clwb Cinio i Galeri i fwynhau prynhawn gyda Dylan a Neil. Cawsant wledd o hwyl a chanu a phaned o de cyn dod adref. Roedd y cwbl wedi ei drefnu gan Bessie Costello, y Warden, a chawsant logi bws gan Age UK.

Cofiwch fod croeso i unrhyw un ddod i gael cinio ar ddydd Mawrth a Bore Coffi ar ddydd Mercher.

Eisteddfod yr Urdd Erbyn hyn bydd yr eisteddfodau bro a sirol wedi eu cynnal ac yn awr yn edrych ymlaen i'r Genedlaethol. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i bawb sydd wedi

llwyddo i fynd ymlaen.

Profedigaethau Yn dawel mewn Cartref ym mae Trearddur bu farw Mrs Lily Horman, Venice gynt. Yn 91 mlwydd oed. Bu'n brwydro am flynyddoedd gyda afiechyd creulon iawn. Roedd yn un o griw prysur a hapus merched Llanrug, ac yn rhan bwysig o'r gymdeithas. Bu yn gweithio yn yr ysgol a'r plant yn ei hadnabod fel Anti Lili. Cydymdeimlwn yn arw a David a Janet, Ron, Dylan ac Elin.

Ar 17 Chwefror, yn dawel yn ei gartref bu farw Pete Shipley, Rhos Ddu, Ffordd yr Orsaf. Yntau wedi brwydro salwch brwnt ond wedi cael gofal tyner gan ei wraig, Helen, y plant, Gwenfair, Rhian a Sian. Bydd colled fawr iddyn hebdo ac estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at y teulu ac at Mrs Olwen Jones, ei fam yng nghyfraith.

Eto estynnwn yr un neges o gydymdeimlad llwyr at deulu John Eifion Roberts, 54 Nant y Glyn, a fu farw yn 58 mlwydd

oed. Heddwas oedd John ond gorfu iddo ymddeol yn gynnar oherwydd ei salwch.

Bydd colled enfawr i'r teulu, Sheila, ei wraig, a fu mor ofalus ohono; Donna ac Eifion y plant, Angharad, Maria Gwion, a'i fam, Mrs Betty Roberts.

Bu farw Mrs Nancy Evans, Llys Elen (gynt o Gaernarfon a Tŷ Newydd, Cwm y glo). Roedd yn 87 mlwydd oed ac wedi byw yma yn Llanrug ers ychydig i fod yn agos at ei mab, Melfyn, a'i wraig Mair. Cydymdeimlwn yn arw â hwy fel teulu, ynghyd â'r wŷr, wyresau a gor-wŷr.

Yn sydyn iawn bu farw Don Mackay yn 64 mlwydd oed. Brawd annwyl Barbara Thomas, Y Glyn, Pontrug. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â chwi fel teulu.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Mawrth 12fed, aeth criw o aelodau'r gangen i giniawa i Tŷ Golchi i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Mair Huws, ac anfonwyd ein cofion

gorau at yr aelodau oedd wedi methu ymuno. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Eleri Green ar ran Pwyllgor Eisteddfod Cylch yr Urdd am gyfraniad y gangen yn paratoi paned a lluniaeth ar Sadwrn yr Eisteddfod Cylch. Gwnaed elw sylweddol a bwriedir ei ddefnyddio i gefnogi ieuencid y fro. Anfonir ein cofion gorau at Helen ac Ifan ac at bawb sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Enillwyr y Raffl oedd Carys Wyn a Margaret Christian. Diolchodd Mair i Olwen a Linda am y trefnu trylwyr, i Bethanne am drefnu'r Cwis gyda llongyfarchiadau i fwrdd Ann, Carys, Phyllis a Myfanwy am ddod i'r brig a diolchwyr yn ddiffuant i holl staff Tŷ Golchi am y pryd arbennig o flasus a'r croeso cynnes.

Ebrill 9fed cawn gwmni Marion Hughes yn sôn am 'Teithio'r India'. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ym mis Mai, yr arian i law yn y cyfarfod nesaf os gwelwch yn dda.



Helfa Wyau Pasg Cylch Ti a Fi

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260

**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

Ysgol Gynradd Llanrug



Anti Carys yn cael ei chyflwyno â blodau ar achlysur ei hymddeoliad; wedi gwasanaethu yng nghegin Ysgol Gynradd Llanrug am 31 o flynyddoedd.



Norma Price gyda'i baner Cymru ar ei diwrnod olaf yn yr ysgol.

iddynt.
Anna Whiteside Thomas Bl 6 – ail ar waith Lluniadu 2D Bl 5 a 6
Guto Whiteside Thomas Bl 6 - trydydd ar waith Lluniadu 2D Bl 5 a 6
Osian Eifion Land Bl 5 – Cyntaf ar y Print Monocrom Bl 5 a 6 ail ar Graffeg Cyfrifiadurol Bl 5 a 6, ail ar y Print Lliw Bl 5 a 6
Moi Tudur Bl 6- Cyntaf ar Ffotograffeg/Graffeg Cyfrifiadurol Bl 5 a 6, cyntaf ar y Print Lliw Bl 5 a 6 ac ail ar y Print Monocrom Bl 5 a 6
Padrig Hickey Bl 0 - Cyntaf ar y Print Lliw Bl 2 ac Iau
Gwernan Brookes Bl 4 - Ail ar gynhyrchu Gemwaith Bl 3 a 4
Cynhaliwyd cystadleuaeth celf a Chreffft Rhanbarth Eryri yr Urdd a dyma'r rhai a fu'n fuddugol, gyda llongyfarchiadau mawr iddynt.
Osian Eifion Land Bl 5 - Cyntaf ar Graffeg Cyfrifiadurol Bl 5 a 6, Cyntaf Print Monocrom Bl 5 a 6 a Chyntaf ar y Print Lliw Bl 5 a 6.
Moi Tudur Bl 6- ail Ffotograffeg Bl 5 a 6, ail ar y Print Lliw Bl. 5 a 6 a thrydydd ar y Print Monocrom Bl.5 a 6.
Bu nifer o enethod yr ysgol hefyd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo, a daeth Grŵp o Angylion Bach Kelly yn fuddugol ac Elain Angharad Elis yn gyntaf ar y ddawns ddisgo unigol Bl 5 a 6. Llongyfarchiadau iddynt hwythau.
Cynhaliwyd Cyngerdd i ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth y cyntaf, lle roedd plant Adran y Babanod i gyd yn diddanu cynulleidf. Diolch i Mrs Heulwen Evans a'i thim am hyfforddi'r plant i ganu. Bu Blwyddyn 5 a 6 draw yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn cymryd rhan mewn gweithdy Diwrnod Golchi yn Oes Fictoria. Mwynhaodd y plant yn fawr a chawsant wneud sebon yn y ffordd hen ffasiwn.
Daeth Norma Price atom i Ysgol Gynradd Llanrug o Batagonia. Bu hefo ni am dair wythnos yn cael blas yn bennaf ar weithgareddau Adran y Babanod.

Cynhaliwyd Eisteddfod Cylch yr Urdd a bu nifer yn llwyddiannus yno. Dyma'r rhai fydd yn ein cynrychioli yn y Sir:
Parti Llefaru Bl 5 a 6 [diolch i Mrs Llinos Evans am eu hyfforddi]
Erin Gibbard Bl 2 [Llefaru a Cherdd Dant Bl 2 ac Iau]
Caio Siôn Bl 2 [Unawd Bl 2 ac Iau]
Tomi Llywelyn [Unawd Bl 3 a 4, Llefaru Bl 3 a 4, Cerdd Dant Bl 3 a 4, Alaw Werin Bl 6 ac Iau]
Leisa Gwenllian [Alaw werin Bl 6 ac Iau, Unawd Bl 5 a 6, Llefaru Bl 5 a 6, Cerdd Dant Bl 5 a 6]
Leisa a Tomi- Deuawd Bl 6 ac Iau
Nanw Llwyd Bl 4- Unawd Chwythbrennau
Lisa Gwenllian Williams Bl 6-Unawd Chwythbrennau
Llongyfarchiadau hefyd i
Gwernan Brookes Bl 4 a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth llefaru Bl 3 a 4.
Beca Mair Bl 2 a gafodd lwyfan ar y gystadleuaeth Unawd Bl 2 ac Iau
Iwan Griffith Bl 6 a ddaeth yn drydydd ar yr Unawd Pres.
Rhydian Williams a gafodd lwyfan ar yr Unawd Pres.
Nel Pennant Jones a ddaeth yn drydydd ar yr Unawd Bl 3 a 4, ac yn drydydd ar yr Unawd Chwythbrennau.
Bu i nifer o'r partion, band yr ysgol a chôr yr ysgol yn cystadlu, a diolch iddynt i gyd am wneud mor dda.
Cynhaliwyd cystadleuaeth Celf a Chreffft, Cylch Arfon yr Urdd hefyd a dyma'r rhai fu'n fuddugol a llongyfarchiadau calonnog

Capel y Rhos

Ar Fawrth 1af, cynhaliwyd cyfarfod gweddi byd eang y chwiorydd. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Cristnogol Ffrainc. Daeth criw da ynghyd a braf oedd cael cynrychiolaeth o wahanol gapeli ac eglwysi. Am y tro cyntaf ymunodd merched Brynrefail yn yr addoliad. Diolch i bawb gymerodd ran ac i'r rhai fu'n paratoli paned. Casglwyd £55 tuag at waith yr achos.

Oedfaon mis Ebrill	
Ebrill 7 –	Y Gweinidog Parch. Marcus Wyn Robinson
Ebrill 14 –	Parch. Ddr. Elwyn Richards
Ebrill 21 –	Y Gweinidog
Ebrill 28 –	Parch. Olwen Williams

Peidiwch gori ar stori

Cylch Meithrin

Chwefror 23 (36): Meirwen Lloyd;
Mawrth 2 (11): Cheryl Jones;
Mawrth 9 (18): Gwen Edwards;
Mawrth 16 (19): Dawn Parry.
Diolch i bawb sy'n cefnogi'r fenter – mae £600 o elw wedi ei wneud ers mis Hydref.

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996



Ysgol Gynradd Llanrug yn dathlu agoriad ei estyniad newydd

Mae staff a disgyblion ysgol gynradd Llanrug yn dathlu wedi i estyniad modern i'r adeilad gael ei agor yn swyddogol.

Cafodd y datblygiad newydd, a fydd yn cartrefu disgyblion blynyddoedd pedwar, pump a chwech, ei agor yr wythnos yma.

Bydd yr adeilad newydd nid yn unig yn darparu adnoddau o'r radd uchaf i blant, ond hefyd yn cael ei ddefnyddio gan weddill y gymuned tu allan i oriau ysgol.

Mae'r prosiect yn ei gyfanrwydd – sydd yn cynnwys system technoleg gwybodaeth, cyfrifiaduron 'SmartScreen' a dodrefn – yn fuddsoddiad o bron i £400,000 ac yn golygu bod yr ysgol yn cyrraedd gofynion cynllun i wella safonau band-eang mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, dwy flynedd o flaen targed Llywodraeth Cymru.

Mae gan yr estyniad eco-gyfeillgar hefyd dechnoleg paneli solar, goleuadau LED a synwryddion isgoch. Mae'r adeilad yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth fydd hefyd yn cael eu defnyddio fel dosbarth mawr neu neuadd ychwanegol; ystafell amlbwrpas a bloc toiledau.

Mae'r ysgol eisoes yn cael ei defnyddio fel canolfan rhanbarthol ar gyfer hyfforddiant Apple, ond bydd bellach yn cael ei defnyddio gan y gymuned ehangach i ddarparu hyfforddiant TG ac i gynnal cyfarfodydd.

Dywedodd y Cyngorydd Siân Gwenllian, aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd: "Rydw i'n hynod o falch i gael gweld agoriad yr estyniad newydd hwn i Ysgol Gynradd Llanrug.

"Mae'r prosiect yn dangos fod buddsoddi yn addysg ein plant yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd, ac mae'n amlygu ei ymrwymiad i fuddsoddi yn nyfodol ein plant.

"Bydd y datblygiad hwn yn sicrhau y bydd disgyblion yr ysgol yn medru manteisio ar y cychwyn gorau i'w bywydau ysgol."

Dywedodd pennaeth yr ysgol, Robin Williams: "Rydym yn hynod o falch, fel disgyblion, staff a llywodraethwyr bod yr estyniad yma bellach yn barod ar gyfer disgyblion blwyddyn pump a chwech.

"Mae'r plant yn hynod o falch o gael symud i'r adeilad newydd ar ôl yr hanner tymor."



Y Cyngorwyr Sian Gwenllian a Ioan Thomas gyda phennaeth Ysgol Gynradd Llanrug Robin Williams a Pennaeth Gofal Cwsmer Cyngor Gwynedd, Gwenan Parry



Y Cyngorydd Sian Gwenllian gyda disgyblion Einion a Dylan

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

- Sefydliad Coffa**
- Enillwyr Clwb Cant Mis Chwefror
- 1..Bethan Roberts, Glanfa
 - 2..Lorna Jones, Talybont
 - 3..Sharon Owen, Bro Rhyddallt
- Plaid Cymru
- Enillwyr Clwb Cant Mis Mawrth
- 1..D A Jones, Minffordd
 - 2..Berwyn Jones, Glanffynnon

NANT PERIS Kate Pritchard (872331) econantperis@hotmail.com

Dymuna Meirion a Rhian Pritchard, Tŷ Isaf, ddiolch i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau am y dymuniadau da, cardiau, blodau a rhoddion ariannol a dderbynion nhw ar achlysur eu Priodas Aur ar Fawrth yr 2il. Bydd yr arian yn cael ei gyflwyno i elusennau lleol.

Dymuniadau gorau i Elwyn Searell Jones, Dwyfor, Nant Peris, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gwellhad buan gan bawb yn y pentref.

Cofion ac atgofion!



(Eluned Jones, Hughes gynt, Stryd Siarlot, Llanberis)

Difyr oedd darllen yn rhifyn mis Chwefror fod Ysgolion Sul Capel Coch, Nant Padarn ac Eglwys Sant Padarn, Llanberis, wedi ymuno â'u gilydd. Pob llwyddiant iddynt.

Yn blentyn, ac yn ddiweddarach, aelod yng nghapel Gorffwysfa, daeth atgofion hyfryd o'r adeg hynny pan oedd pedair eisteddfod yn y pentref a chystadlu brŵd ymhob un ohonynt. Eisteddfodau yn parhau tair noson! Cofiaf ennill sawl gwobr a chael arian i wario'n siop Dorothy ar y dydd Sadwrn i ddilyn – rhyfeddol!

Yr oedd yna obeithlu (Band of Hope) hefyd yn y capeli - ar nos Lun y cynhaliwyd yr un yng Nghorffwysfa ac fe ddeuai nifer o blant o'r capeli eraill a'r eglwys yno i gael hwyl wrth ddysgu am Iesu Grist. Dyma lun ohonom yn blant yn dathlu'r Nadolig yn festri Gorffwysfa.

Y mae sawl wyneb cyfarwydd ymysg y lliaws. Tybed fedrwch chi, y darllenwyr, adnabod rhai? Yr wyf fi, fy chwaer a'm brawd yn falch o fod wedi cael bod yno!

Diolch am yr Eco a diolch hefyd am hen atgofion i'w trysori, does dim all gymharu â hwy. Diolch am bobl fel Thomas John sydd wedi parhau yn ffyddlon i glwb pel droed Llanberis. Hyfryd oedd darllen ei hanes.



Apêl “Un o Fil”

Elusen Gristnogol a sefydlwyd gan eglwysi lleol o sawl enwad i gyflwyno'r Ffydd Gristnogol i blant ac ieuenctid bro Eco'r Wyddfa yw Cynllun Efe (Efengyl i Fro'r Eco), ac ers mis Hydref 2008 mae wedi cynnal Andrew Settatree fel gweithiwr ieuenctid Cristnogol yn yr ardal. Mae Andrew'n ymweld ag ysgolion Sul ac yn cynnal clybiau CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol), ac yn arwain a chymryd rhan mewn gwasanaethau mewn capeli ac eglwysi. Mae'n cynnal gwasanaethau yn ysgolion cynradd y fro, a bu'n cynnal gwahanol gyfarfodydd yn Ysgol Brynrefail. Rydym yn awyddus i barhau i'w gynnal, ac yn gofyn am eich help. Wnewch chi ystyried bod yn UN O FIL er mwyn y gwaith?

‘UN O FIL’

Hyd yma, cawsom arian oddi wrth eglwysi ac enwadau ac elusennau i gynnal y swydd hon. Roedd llawer o'r arian hwnnw i'n helpu i gychwyn y gwaith, ac ni fydd ar gael eto. Yr ydym felly'n gobeithio y bydd cyfeillion a chefnogwyr y gwaith yn gallu ein helpu trwy ein cynllun newydd, ‘UN O FIL’.

Y gobaith yw cael 1000 o bobl i gyfrannu £20 flwyddyn at y gwaith pwysig hwn. Hyderwn y bydd llawer o gyfeillion personol Andrew, ynghyd â phobl sydd wedi cydweithio ag ef yn lleol a thros ardal ehangach yn awyddus i'w gefnogi yn ei genhadaeth werthfawr yn yr ardal hon.

Erfyniwn am eich cefnogaeth a'ch cymorth yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.

Cysylltwch â Thrysorydd Efe, Clive James, Hafan, Caethro, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2SS neu John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd LL55 4HB am fanylion pellach a ffurflen banc, neu anfonwch eich cyfraniad yn uniongyrchol at un o'r ddau.

Os oes rhywun yn awyddus i fod yn fwy hael byth, mae gennym ail hanner i'r Apêl, sy'n gwahodd pobl i fod yn UN O GANT trwy gyfrannu £100 y flwyddyn at y gwaith.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD



SWIGOD
A
SEBON

SYCHLANHAU

Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon

Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

GWASANAETH GARDDIO OWEN

GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO

FFENSIO GERDDI A
FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO

07901648008

Alun Hughes yn gofyn: Pwy bia'r chwareli ?

Mae'n hen bryd i ni fel cymuned benderfynu ar pwy sydd am gael yr hawl i'n hadnoddau naturiol. Pwy sydd am gael yr hawl i wneud ffortiwn yn cynhyrchu trydan yn ein hardal? Yn fy nhyb i ni ddylai'r cynllun arfaethedig yn Nglyn Rhonwy ddigwydd tan y byddwn NI wedi penderfynu fel cymuned ar yr elfen o 'berchnogaeth'.

Pwy bia'r chwarel? Pan ofynnais y cwestiwn mewn cyfarfod gyda Tony Thomas, rheolwr cyfleusterau Gorsaf Bŵer Dinorwig, ynglŷn a Chwarel Dinorwig, estyn am y map wnaeth Tony er mwyn dangos llinellau terfyn eiddo First Hydro. Ond cwestiwn symbolaidd oedd gen i, achos i mi, 'Ni' bia'r chwarel, 'Ni', sef y bobl sy'n byw yma yn ardaloedd y llechi. Pwrpas y cyfarfod gyda Tony, a drefnwyd gan y cynghorydd Trevor Edwards, oedd gofyn am ganiatâd mewn egwyddor i adeiladu 'llwybrau llechi' drwy'r chwarel, h.y. llwybrau cerdded. Fy mhwynt sylfaenol yw nad ydy'r gymuned leol yn cael digon o ddefnydd o'r chwarel fel ag y mae hi. Hefyd, byddai cyfres o lwybrau newydd drwy'r chwarel yn ffordd syml iawn o ddenu pobol i'r ardal.

Mwy am y cyfarfod yn nes ymlaen.

Gawn ni edrych yn ôl ychydig ddegawdau? Adeiladwyd Gorsaf Bŵer 'pump storage' Dinorwig gydag arian trethdalwyr, h.y. ein harian ni. Ar ddiwedd yr wythdegau roedd diwydiant ynni Prydain yn wladol o dan y C.E.G.B. Yna prifateiddwyd y diwydiant a'r 'grid' gan lywodraeth Thatcher yn y nawdegau gan roi perchnogaeth i gwmnïau preifat. Bellach mae Gorsaf Bŵer Dinorwig yn eiddo i gwmni o Japan, sef Mitsui and Co. Mae'r cwmni heddiw yn gallu cynhyrchu'r incwm syfrdanol o £1m y dydd drwy werthu ynni Dinorwig! Elw da i gyfranddalwyr Mitsui.

Pwy bia chwarel Glyn Rhonwy ? Ni, ia Ni!! Swyddogol! Cyngor Gwynedd bia'r chwarel. Mae hi'n eiddo i chi a fi! Mae'r llinellau terfyn i'w gweld yn blaen ar y mapiau, ac felly toes dim rhaid bod yn symbolaidd a throï'r cloc a'r ddadl nol i oes grym hanesyddol stadau'r Vaynol a'r Penrhyn, a chyn hynny. Ond, dan ein trwynau ar y funud, mae ein cyngor ni yn ystyried rhoi bendith ar gynlluniau y 'Quarry Battery Company' a RHOI yr hawl i wneud arian mawr i ffwrdd, yn rhad ac am ddim! Yn union fel yn ddiweddar y rhoddodd nhw yr hawl i Mitsui and Co. godi argae Marchlyn ddeuddeg troedfedd yn uwch gan greu elw ychwanegol o filiynau o bunnoedd i'r cwmni am bob troedfedd a godwyd – a hyn heb ymgynghoriad lleol o gwbl ar y pryd. Ond yn waeth fyth doedd dim ceiniog o'r elw yma yn mynd i'r gymuned leol.

Anhygoel ! Felly pwy sy'n awdurdodi ein harweinyddion ar y Cyngor i fod mor hael gyda'n hetifeddiaeth naturiol?

Ia – NI.

Roeddwn i yn gadeirydd Cwmni Cymunedol 'Beicio Llanberis' pan ddaeth y 'Quarry Battery Co.' atom ni yn gyntaf gyda'r cynlluniau. Ar yr adeg hynny roedd elfen gref o berchnogaeth cymunedol yn ran pwysig o'u cynlluniau, a chawsant gefnogaeth ein grŵp ar y pryd. Bellach does dim sôn yn eu cynlluniau am unrhyw elw na pherchnogaeth i'r gymuned.

Felly dwi'n bersonol yn gwbl yn erbyn y cynllun hwn, ond nid oherwydd y cynllun ei hun. Mae yn amlwg yn gynllun busnes cryfiawn, o ystyried ffigyrau gwerthiant dyddiol ynni Dinorwig. Mae'r 'grid' ym Mhrydain dan bwysau, gydag ynni amseroedd brig prin yn gallu cyflenwi'r galw, felly mae'r math yma o bŵer yn werthadwy iawn, ac yn amlwg yn fwy felly yr aiff hi.

Dwi'n gwrthwynebu oherwydd credaf dylwn ni fel cymunedau lleol fod yn hawlio, rheoli a pherchnogi pŵer ein hetifeddiaeth naturiol ein hunan.

Ni bia'r mynyddoedd, yr afonydd a'r llynnoedd, ni, y bobl sy'n byw yma. Mae gennym Senedd yng Nghaerdydd, Cyngor yng Nghaerfarnham a chymunedau cryf yn nyffrynnoedd y llechi. Beth am i ni werthuso beth sydd gennym yn fwy ymarferol a phen caled. Beth am i ni ddatblygu strategaethau i gymunedau ddechrau elwa'n uniongyrchol o bŵer y llynnoedd, yr afonydd a'r mynyddoedd sydd o'n cwmmpas. Toes ganom ni ddim byd arall, ac mae be sydd ganom yn holl bwysig i'n dyfodol economaidd.

Mae'n bwysig i ni ei berchnogi neu parhau i'w golli wnawn ni fel y collwyd popeth i'r tîrfeiddianwyr yn yr oesoedd cynt. Ond pwy wnaiff arwain ?

Yn ôl i'r cyfarfod efo Tony a Trefor.

Alun: "Tony, be am adeiladu mwy o lwybrau drwy'r chwarel ? Mae'r cysnail mewn lle, ond yn lle cael un llwybr fel sy'n bodoli ar hyn o bryd, be am gael mwy ohonyn nhw? 10 falla? A be am lunio cynllun i ddatblygu dyfodol i'r chwarel gan gysidro yr etifeddiaeth ddiwydiannol, cyn iddo ddiiflannu, er budd y bobol leol ac fel adnodd i ddenu ymwelwyr? Mae'r chwarel yn rhy gaedig i'r cyhoedd fel mae hi."

Tony: "Gret, 'go ahead', sgen i ddim gwrthwynebiad mewn egwyddor - os cymerwch chi'r cyfrifoldeb llawn, - awe a phob lwc."

Trefor: "Da iawn wan Tony, tud Alun, awn ni at Gwynedd. Mae na adran yno o'r enw Adran Adfywio Economi. Nhw di'r bois, mae nhw'n cael eu cyflogi i adfywio'r economi leol. C'mon Al, awn i drefnu cyfarfod efo nhw."

Alun: "Iawn Trefor"

Tony: "... .. "Coffi ?"

Ar ôl mis neu ddau a dim sôn am gyfarfod penderfynais ffonio Gwynedd fy hun. Pawb yn brysur - gadewais neges. Mewn dau fis arall, ffoniodd Llyr B. Jones, Dirprwy Bennaeth Adran Adfywio Economi yn ôl i ddweud -

"Allwn ni ddim cymryd 'y lead' ar hyn."

"Rhaid i rhywbeth fel hyn ddod o'r gymuned."

Yr un ateb ddaeth gan Alun Ffred o'r Senedd.

Hmm.

Sy'n codi cwestiwn arall.

Be ydi briff yr Adran Adfywio Economi yng Ngwynedd?

Yn ardal Llanberis mae enghreifftiau da iawn o Gyngor Gwynedd yn creu adnoddau hamdden ar gyfer pobol lleol ac i ymwelwyr, fel y datblygiadau yng Nghilfach Ddu a phwll deifio Vivian. Hefyd ger y 'lagoons' ar gyrion y pentre ar ochor Llanberis o Lyn Padarn. Cynghorau lleol a Chyngor Gwynedd, hyd y gwn i, greodd yr adnoddau hamdden gwych yma. Mae Cyngor Gwynedd felly wedi cymryd y 'lead' yn y gorffennol. Pam na ellid gwneud hyn eto ? A pham ddim creu llwybrau cerdded yn chwarel Glyn Rhonwy hefyd tra da ni wrthi, a llwybrau beics, a llwybrau natur, a.y.y.b., a.y.y.b ? A beth am chwareli'r dyffrynnoedd eraill, e.e. Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle? A beth am lwybrau i gysylltu'r ardaloedd?

Mae pawb yn gytún ar bwysigrwydd twristiaeth i ddyfodol economaidd Gwynedd. Os grëwn ni strwythur i'r diwydiant o fewn strategaeth cydlynol, a chreu lleoedd i ddenu a chadw ymwelwyr yn yr ardal, mi ddaw y bobol yma yn eu niferoedd, ac mi welwn ein busnesau bach lleol yn ffynnu unwaith eto. Dwi'n gwybod fod nifer fawr o bobol yn gweithio'n galed i geisio gwneud hyn ddigwydd.

Ond mae rhywbeth yn amlwg o'i le. Tydi'r cynghorau ddim yn ymddangos digon rhydd ac agored i weld y ffordd ymlaen. Toes neb a'r weledigaeth i roi'r bobl yn gyntaf, dim ond edrych yn ôl a gwylio eu cefnau mae pawb yn ymddangos ei wneud.

I wella economi ein cymunedau rhaid i rywun gymryd yr arweiniad. Os ydi Gwynedd yn mynnu iddo ddod o'r gymuned, pam ddim hysbysebu hyn? Pam ddim sôn am hyn yn gyhoeddus? Dwi'n gwybod o brofiad pa mor anodd ydi datblygu syniadau a'i gweithredu; ac i'r bobol o'r gymuned sy'n gwneud yr ymdrech, cymorth mae nhw ei angen, dim 'hurdles' a 'hoops' i neidio drostynt a thrwyddynt.

Os nad oes neb yn cymryd y 'lead' i ymestyn a llwyddo gyda'r syniadau syml, fel adeiladu llwybrau cerdded a llwybrau beicio, toes gennym ddim gobaith efo'r syniadau mawr, fel Ynni.

Os twristiaeth ydi'n dyfodol economaidd ni rŵan yng Ngwynedd, dwi'n dadlau bydd ynni yr un mor bwysig yn y dyfodol. Mae'n holl bwysig ein bod yn cadw ein gafael ar hawliau y potensial yma. Rhaid ffendio ffyrdd i gymunedau adeiladu ac elwa o gynlluniau bychan sy'n creu ynni yn uniongyrchol ar gyfer y cymunedau yn ogystal a gwerthu i'r 'grid' am elw.

Ond bydd yn rhaid i rhywun arwain datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Pwy? Beth ydi'r ewyllys politicaidd yng Nghaerdydd ynglŷn ag ynni adnewyddol, a pherchnogaeth cymunedol o gwmnïau ynni adnewyddol?

Mae afon yn llifo trwy pob pentref yng Ngwynedd. Cymaint o ddŵr yn rhedeg i'r mor. Oes ffyrdd i harnesu'r egni yma heb adeiladau a pheipiau mawr hyll? Oes posib cael niferoedd mawr o gynlluniau bychan yn elwa pob cymuned fechan fasa'n barod i fentro? Wrth gwrs fod yna ffordd ond does yna ddim gweledigaeth boliticaidd yn lleol na chenedlaethol.

Os rannwch chi £100m, sef amcangyfrif cost adeiladu 'pump storage' Glyn Rhonwy, efo nifer poblogaeth Gwynedd yr ateb ydi tua £833 y pen.

Ydi hi'n bosib i 'Ni', trethdalwyr Gwynedd, roi arian i mewn i gynllun fel hwn er mwyn cael ein treth cyngor tipyn rhatach yn y dyfodol pan fydd y cynllun yn dod i elw?

Ar hyn o bryd yng nghanol y dirwasgiad llym rydym ynddo, mae pawb yn teimlo effaith toriadau cyllidebau'r Cynghorau Sir. I'n cael ni allan o'r picil ariannol yma, mae'n llywodraeth canolog yn San Steffan yn ein trin 'Ni' fel adnodd. Ni sy'n talu. Os felly, allwn ni droi hyn ar ei ben a bod yn adnodd i ni'n hunan hefyd, bod yn ddyfeisgar, a meddiannu ein hawliau a mentro?

Alun Hughes, Fachwen.

Arolwg o Weithgareddau Diwylliannol ym mro'r "Eco".

Gan Rol Williams, Waunfawr.

Credaf y dylwn nodi ar y cychwyn pam yr euthum ati i geisio cwblhau arolwg o'r fath yn yr un ar ddeg o bentrefi sydd o fewn dalgylch "Eco'r Wyddfa".

Yn gam neu'n gymwys rwyf wedi byw o fewn y dalgylch am ymhell dros bedwar ugain mlynedd (oddigerth pedair blynedd yn yr Awyrlu yn ystod yr Ail Ryfel Byd), ac yn ogystal, wedi cael cryn bleser o ddrachtio a chyfrannu (gobeithio) i'r diwylliant Cymreig pentrefol, cymdogol a chymdeithasol dros nifer helaeth o flynyddoedd.

Wrth reswm, mae cryn newid wedi bod yn y cyfnod ers pan oeddwn i'n llencyn ym mhentref Brynrefail, ac yno, yn ddios, bryd hynny, fwynhau pob agwedd o'r fwydlen ddiwylliannol a roddwyd i'r trigolion er mai pentref bychan oedd. Ond yr oedd gen i un fantais deuluol: roedd gen i fodryb yn byw efo ni – Modryb Lisi – oedd yn berson brwdfrydig iawn dros holl agweddau y diwylliant Cymreig, a bu ei dylanwad arnaf yn anfesuradwy.

Yr wyf ers tro byd yn teimlo bod dirywiad amlwg ym mywyd diwylliannol y dalgylch (nid ym mhob pentref, a diolch am hynny), a hynny yn dylanwadu ar y gymdogaeth.

Mae'n deg gofyn a yw teuluoedd sy'n symud i fyw i'r gwahanol bentrefi y dyddiau hyn yn awyddus i ymdoddi i'w cymuned newydd, fel roedd y drefn ers talwm? Yn fy marn i, 'Na' yw'r ateb pendant, a hyn o bosibl yn gyfrifol am gyfran o'r dirywiad honedig.

Ni ellir ar unrhyw gyfrif anwybyddu dylanwad y teledu ar weithgareddau unrhyw bentref: yn wir, mae'n syndod yn sgil y gystadleuaeth hon fod cynifer o weithgareddau yn cael eu cefnogi mor hael mewn sawl pentref. Yr wyf yn nodi hyn oherwydd ateb parod a chyson amryw fydd cyfeirio at boblogrwydd a dylanwad y teledu. Ond, gan fy mod yn prynu dau neu dri o bapurau bro yn fisol, ni allaf ond gofyn pam nad oes pall yn ôl pob golwg ar frwdfrydedd diwylliannol trigolion Dyffryn Nantlle o ddarllen tudalennau "Lleu".

Yr wyf fi yn ddigon hen i gofio y brwdfrydedd heintus oedd yn rhan o fywyd dyddiol a nosweithiol pentref Llanberis a chymdogaethau Deiniolen a Llanrug; y ddau bentref sy'n haeddu cryn ganmoliaeth am ddal ati mor llewyrchus i ddenu ieuencid y fro i'w seindorf o hyd. Am wahanol resymau, dod i ben fu hanes seindorf Llanberis a'r Waunfawr.

Efallai ei bod yn deg dweud fod Llanberis bellach yn canolbwyntio bron ei holl adnoddau ar dwristiaeth, a'r myrdd o ddigwyddiadau (gan gynnwys Ras yr Wyddfa) yn y categori hwnnw. Pwy wel fai ar y trefnyddion am fanteisio ar y cyfleusterau amgylcheddol sydd yno, a'u defnyddio er lles economaidd y pentref yn fwy na'i les diwylliannol?

Y felltith, os melltith hefyd, i hynafgwr fel fi, ydi cofio am orffennol Llanberis: côr merched, côr ieuencid (dau gôr llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol), perfformio y 'Messiah', cwmni drama, cymdeithasau llenyddol y pedwar capel a'r eglwys, cyngherddau o safon, heb son am garnifal lliwgar yn yr haf. Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn oherwydd yr awydd i gyd-weithio, yn foddion i fagu llu o gymeriadau a ddaeth mewn amser yn fwy na pharod i roi eu hysgwydd i ddyrchafu Llanberis i lefel ganmoladwy.

A yw Llanberis yn dal ar yr un lefel? I mi, yn ddiwylliannol, mae'n ofid gen i ddweud 'Nac ydi'.

I gloi y sylwadau hyn, rhaid i mi gyfaddef i mi gael cryn sioc o ddeall am y sefyllfa yn Ninorwig y dyddiau hyn. Cof gennyf am y pentref yn llawn bywyd, gydag ysgol, yr eglwys a'r capeli yn fagwrfeydd i sawl talent, a chefais y fraint o gael gwahoddiad i'r gymdeithas lenyddol yno sawl tro. Does ryfedd fod yr ychydig Gymry sydd yno yn gofidio am y sefyllfa bresennol, ac rwy'n siwr mai dyna fydd teimladau darllenwyd yr "Eco" hefyd. Clywsom lawer y dyddiau hyn am foddi Tryweryn. Dyma Dryweryn o fath arall, gwaetha'r modd.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd canlyniadau'r Cyfrifiad, ac fe'i cyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf o'r "Eco". Cefais dipyn o syndod o sylwi fod cynifer a 75% o drigolion y Waunfawr yn siarad Cymraeg, gan fy mod, fel eraill, wedi teimlo fod nifer y di-Gymraeg ar gynnydd yma ers talwm. Yn wir, yn ystod y 1990'au, pan oedd Rhestr yr Etholwyr ar gael, fe fum yn eithaf diwyd a manwl yn craffu ar bob enw i geisio cadarnhau, gyda chymorth eraill, a'i Gymry yntau di-Gymraeg oedd pob preswlydd ar y rhestr, a dod i'r casgliad fod 40% o'r trigolion bryd hynny yn ddi-Gymraeg. Yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad, chwarter poblogaeth y Waunfawr sy'n ddi-Gymraeg; felly hefyd Llanberis. Roedd hyn hefyd yn syndod, gan i mi gael yr argraff fod nifer mwy sylweddol o drigolion Llanberis, ac yn sicr, Nant Peris, yn ddi-Gymraeg.

Gwn y bydd rhai yn fy atgoffa o "fel y mae pethau wedi newid" ac nad oes awydd gan bobl i ymhel at ei gilydd fel cynt. Nid gwir hyn. Rwyf yn fisol yn darllen adroddiadau yn "Lleu" ac yn synnu at nifer y gweithgareddau a gynhelir yn Nyffryn Nantlle. Wrth reswm, mae'r cyfarfodydd arferol fel y Gymdeithas Lenyddol (bron ymhob pentref), Merched y Wawr, Sefydliad y Merched, Clwb Ieuencid/Aelwyd yr Urdd, fel a geir ym mhentrefi bro'r "Eco". Ond mae hefyd gyfarfodydd amrywiol eraill yn denu trigolion Dyffryn Nantlle; gweithgareddau nad ydynt yn bodoli yn nalgylch yr "Eco". Mae'n syndod personol i mi pam nad oes Cymdeithas Hanes yn bod yn nyffryn Peris.

Yn Nyffryn Nantlle fe wahoddir y trigolion gyda'r nosau neu yn y prynhawniau i fwynhau paned a sgwrs yn festri un o gapeli Penygroes. Ceir hefyd Glwb Difia, Cymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle, Cymdeithas Croesbwyth, Cymdeithas Hanes y Tair Llan, Cylch Llenyddol Dyffryn Nantlle, Cerddwyr Penygroes, Clwb ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clwb Garddio y Dyffryn, Antur Nantlle (cyrsiau lu!), Cymanfa Garolau, a Chylch 'Datod Tafod' (i sgwrsio a dysgwyr yr iaith).

A'i arwydd fod y werin yn troi cefn ar gyd-gyfarfod yn ddiwylliannol fel cynt ydi hyn? Choelia'i fawr!

Yn ddios mae yr uchod yn profi fod angen i gymdeithasau dalgylch yr "Eco" ddeffro o'u trwmgwsg di-ddiwylliannol, ac angen i ambell bentref wneud hynny ar fyrder.

Y mis nesaf ceir sylwadau (a barn) ar weithgareddau diwylliannol gwahanol bentrefi'r fro.

YSGOL YRRU

ELIDIR

Driving School

Jacqueline Williams

Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

07922121226

NEU

(01286) 882269

GWERS GYNTAF

2 AWR AM BRIS 1

COR MEIBION DYFFRYN PERIS

MAE

Côr Meibion Dyffryn Peris

Yn hysbysebu am

GYFEILYDD

Am fwy o wybodaeth

cysylltwch â'r Cadeirydd-

Ifor Jones ar (01286) 870190

GWYNANT

PIERCE

Cynyrchion Coed:

Gatiau, Ffensus ac ati

am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG


Ffôn: (01286) 674183

(0589) 899901



Trwynau Coch

Roedd hi'n ddiwrnod od rhywsut, yn enwedig wrth weld dafad yn astudio Hanes yn y Llyfrgell!
A Capt America yn dewis llyfr i'w ddarllen a hwnnw'n llyfr Cymraeg!
Ac mi gafodd rhai hogiau dynnu'r blew o'u coesau...



Diwrnod Di-wisg Ysgol

Tra'r oedd un aelod o staff yn bwyta cacenni yr oedd Gwen Thomas, Elin Thomas ac Erin Ynyr yn eu gwerthu. Ar ôl eu prysurdeb adref yn paratoi'r danteithion fe werthwyd cynnyrch lliwgar a blasus a'r holl arian, wedi penderfyniad Cyngor y Disgyblion, yn mynd tuag at y gronfa i gynorthwyo'r pedwar sy'n mynd i'r Wladfa. Yr oedd disgyblion a staff hefyd wedi talu tuag at wisgo eu dillad eu hunain yn hytrach na gwisg Ysgol ac ar ddiwedd y dydd cyfrannwyd, yn gyfan gwbl, £517.65 tuag at Gronfa'r Daith i'r Wladfa.



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Lowri Williams ac Emma Roberts wedi i'r ddwy ennill ysgoloriaeth o £3,000 yr un gan Brifysgol Bangor i'w cynorthwyo i barhau gyda'u hastudiaethau Addysg Grefyddol.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Tîm Bechgyn dan 15

Ysgol Brynrefail 4

Queen Elizabeth HS 1

Tra roedd tîm pel-droed dan 18 yn chwarae eu gêm gwpan fe gymerodd y tîm dan 15 y fantais o chwarae gêm gyfeillgar yn erbyn hogiau Queen Elizabeth.

Cafwyd agoriad eithaf araf i'r gêm ac yn fuan iawn gwelwyd sgôr o 1-1 a run o'r ddau dîm yn disgleirio. Ond yn raddol fe ddaeth tîm Ysgol Brynrefail i'r brig trwy chwarae pêl-droed mwy pwerus.

Erbyn diwedd y gêm gwelwyd sgôr o 4-1 i'r tîm cartref gyda Gwion John (2), Ifan Emlyn (1) a Peter Mansoor (1) yn cyfrannu'r goliau



Tîm Pêl-droed Bechgyn dan 18

Ar bnawn Iau, 29ain Tachwedd 2012, a'r cae wedi dadmer digon i gynnal yr ornest, cyrhaeddodd Ysgol Dyffryn Conwy i chwarae gêm Gwpan Eryri yn erbyn y tîm cartref.

Er perfformiad hanner cyntaf di-gyswllt aeth tîm Bryrefs i'r egwyl yn curo 1-0 trwy gôl Osian Kingston, a gôl-geidwad y tîm cartref, Armando Morgan, heb ei flino o gwbl.

Ond cafwyd stori wahanol yn yr ail hanner wedi i'r hyfforddwr, Mr Phil Holland, feirniadu'r perfformiad yn ystod yr egwyl.

Cafwyd perfformiad pwerus a phob aelod, yn cynnwys yr eilyddion, yn chwarae eu rhan. Ychwanegwyd goliau gan Iolo Hughes(2) a Josh Robinson (2) ac er ildio gôl gysur cafwyd buddugoliaeth o 5-1 a hedfan i'r rownd nesaf.



Ymryson Siarad Cyhoeddus

Yn ddiweddar, ac yn cynrychioli Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle, fe enillodd Gwen Thomas, y Prif Ddisgybl, ornest Ymryson Siarad Cyhoeddus, Cangen Eryri, dan 21.

Eleni, am y tro cyntaf, dewiswyd elfen gyfoes i'r ornest a'r cystadleuwyr yn gorfod ymateb i gyfweiliadau am swyddi.

Ac ar ddiwedd y noson, a noddwyd gan Rondo Media ac a gynhaliwyd Yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon, Gwen a orfu.



Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Tair aelod o'r chweched dosbarth yn derbyn tystysgrifau gan Mirain Roberts, Mantell Gwynedd wedi cyfnod llwyddiannus o wirfoddoli. Fe weithiodd Ffion Jones gyda'r W.R.V.S. yn Ysbyty Gwynedd a hefyd gydag Ambiwllans St John.

Rhoddodd Lowri Williams o'i hamser yn Ysgol Dolbadarn.

Bu Elin Lloyd Griffiths yn gwirfoddoli yn Ysgol Llanrug, Clwb Dawnsio Ysgol Waunfawr a chartref yr henoed Cartref Gwynfa.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19eg o Chwefror 2013 gwnaed y penderfyniadau canlynol:

- Anfon llythyr i Gyngor Gwynedd yn rhestru ardaloedd yn y gymuned oedd wedi dioddef o lifogydd yn ddiweddar yn cynnwys y groesffordd ger fferm Prysgol, Lôn yr Eglwys, y ffordd o flaen Penybont, gwaelod Ffordd Crawia, Ffordd Llanberis ger Ogwen a Ffordd Minffordd ger Tan y Buarth.
- Yn dilyn adroddiadau am broblemau baw cŵn yn y gymuned, gofyn wrth Gyngor Gwynedd eto am y biniau a gafodd eu gaddo ganddynt - dau ym mhentref Llanrug - un o flaen meddygfa Ffordd yr Orsaf, un ym Mro Rhyddallt ac un arall yng Ngwm y Glo. Penderfynwyd hefyd i gwyno nad oedd y Warden Cŵn i'w weld yn y gymuned a gwneud cais iddo ddod i archwilio ben bore pan mae cŵn yn cael eu gadael yn rhydd mewn rhai ardaloedd i faeddu.
- Mewn ymateb i lythyr a dderbynwyd yn dweud na fyddai Gyngor Gwynedd yn talu am dorri cymaint o lwybrau yn y dyfodol, penderfynwyd gwneud y sylwad canlynol – bod y Cyngor yn credu y dylai'r llwybrau sydd eisioes yn cael eu torri yn parhau i gael eu torri gan fod hyn eisioes wedi ei adolygu ac nad oedd rheswm i newid hyn oherwydd y defnydd sydd yn cael ei wneud o'r llwybrau hyn. Penderfynwyd hefyd i gwyno am amseriad y llythyr hwn – dylid fod wedi ei dderbyn cyn i'r Cyngor hwn wneud penderfyniad am y lefel o braesept am 2013/14.
- Gofyn i Gyngor Gwynedd a fyddai modd rhoi pyst i rwystr cerbydau barcio ar y gwair o flaen Tal y Bont sydd wedi gwneud y safle yn fwdlyd iawn.
- 'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
- Creu porth a ramp cysylltiedig – Llanrug Outdoor Education Centre, Ffordd Bryngwyn, Llanrug.
- Estyniad deulawr yn y cefn a phorth yn y blaen – 5 Maes Gerddi, Ceunant.
- Adnewyddu cais i newid defnydd, estyniad cefn a man newidiadau i'r adeilad er mwyn creu ystafelloedd cyfarfod ar y llawr gwaelod a 5 ystafell gwely ar y llawr cyntaf – Gwesty Seiont Manor, Llanrug.
- Cais i godi estyniad deulawr ochr yn lle'r estyniad unllawr presennol – Tyddyn Rhuddallt, Llanrug.
- Porth ar blaen a chodi modurdy a gweithdy yng nghefn yr eiddo – Pantgwyn, Llanrug.
- Derbyn adroddiad ariannol am y flwyddyn gyfredol gan y Clerc yn dangos fod gwariant y Cyngor am y flwyddyn yn debyg o fod yn unol a'r gyllideb. Bydd cyllideb drafft ar gyfer 2013/14 i'w awdurdodi yn y cyfarfod nesaf.
- Atgoffa'r Ymgymmerwyr bod llefydd pwrpasol i gladdu llwch yn y fynwent ac i beidio a defnyddio'r plotiau ar gyfer claddu eirch.
- Rhybuddio'r gymuned am bobl yn codi prisiau hynod o uchel am wneud gwaith i drigolion yr ardal, yn enwedig ar henoed.
- Gofyn i Gyngor Gwynedd am ddau warchodfa bws newydd gyda tōau arnynt, un ar Ffordd Llanberis ger tro Hermon ac un o flaen stâd Tal y Bont.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

PRIODASAU

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul

Ffôn- 01286-870253
Mev-royalvictoria@legacy-hotels.co.uk

Crynodeb o gyfarfod Mawrth

Delweddau Gareth Roberts Cyflwynodd Gareth Roberts, ar sgrin, yr hanesion, y teithiau a'r lluniau ar gyfer y map newydd. Derbyniwyd ei gynllun a'i syniadau a phenderfynwyd ar nifer o 8000 o gopiau o'r map.

Lloches bws, Penisa'rwaun. Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn pris lloches newydd ac yn ymholi cost ei gosod ar gyfer yr Yswirwyr. Cae chwarae, Brynrefail - Nododd Carolyn Roberts bod y gwaith draenio yn digwydd a bwriedir atgyweirio'r ffens ar ôl gorffen y draenio.

Blwch postio Tan Gaer. Cyflwynwyd llythyr 'Llais Defnyddwyr Cymru' yn cadarnhau nad oes bwriad gan y Post Brenhinol i ail osod y blwch. Penderfynwyd anfon eto at y Post i egluro mai gwasanaeth gwledig yw hwn, nid oedd disgwyl defnydd mawr ohono.

Coed Rhydau, Llanddeiniolen. Cyfeiriwyd at gais cynllunio Paintball Wales eto a phenderfynwyd cefnogi'r gwrthwynebiad ymhellach trwy lythyr i Wynedd yn pwysleisio ar y pwyntiau canlynol:

- Bydd y ffordd allan o'r safle ar hyd Lôn Crawiau i'r ffordd fawr lle digwyddodd, yn y gorffennol wyth neu naw damwain, rhai yn angheuol.

- Goleuadau llachar - yng nghefn gwlad.

- Sŵn yn amharu ar gymdogion.

Mae'n debyg iddynt hefyd dorri coed yn y goedlan heb ganiatâd. Pum niwrnod cyn y dyddiad cau y cafodd cymydog wybod am y cais.

Afon Seiont/ Carthffosiaeth Llanberis. Derbyniwyd gwahoddiad Dŵr Cymru i aelodau eu cyfarfod. Gwirfoddolodd Carolyn Roberts a Hefin Williams.

Noddfa (Hen Ficerdy) Deiniolen. Cyfeiriodd Elfed Williams at y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Neiniolen i gychwyn ymgyrch i gau'r Noddfa oherwydd sawl achos o gam-ymddwyn. Penderfynwyd cefnogi'r ymgyrch trwy lythyr i Wynedd.

Gwasanaeth Cyn-Enedigol (Ante-natal) / Newydd Enedigol (Neo natal). Cyfeiriwyd at fwriad yr Awdurdod Iechyd i symud y gwasanaeth yma i Loegr a phenderfynwyd gwrthwynebu'r bwriad am y rhesymau canlynol:

- Gallai'r daith a'r cyfnod teithio gael effaith andwyol ar y fam a'r plentyn bach.

- Teithiau hirbell a chostus i'r teulu ymweld.

- Cymro bach/Cymraes fach newydd yn cael ei geni dros y ffin yn Lloegr!

Llythyr i Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, Alun Ffred Jones AC ac i Llŷr Griffiths AC.

Bysiau Padarn. Dywedodd Rhian Evans eu bod yn gor-yrru ar hyd y ffordd at Cae Glas, Rhiwlas, ac y troi yn ôl yn wyllt. Llythyr i'r rhybuddio i fod yn ofalus yn enwedig pan fo plant o gwmpas.

Ffyrdd/Brynrefail. Cyfeiriodd Carolyn Roberts at gyflwr y ffordd heibio i gae chwarae Brynrefail – llythyr i Wynedd.

Canolfan, Dinorwig. Hysbyswyd y Cyngor bod y ganolfan ar werth. Nid oedd modd i Fenter Fachwen ei chynnal a buasai'r gost allan o gyrraedd y pentrefwyr.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Gwaith addasu sy'n golygu tynnu ac ail godi waliau, drysau a ffenestri newydd ac ail doi yn 1 a 6 Trem Eilian, Brynrefail; 7, 8, 9, 10, 11, 12, 14 a 15 Maes Gwylfa, Deiniolen; a 11, 12, 13, 15 a 16 Bryn Tirion, Penisa'waun.

Cae Cidwm, Penisa'waun – ymholiad o flaen llaw ar gyfer codi adeilad amaethyddol.

Capel Dinorwig – cais i drosi'r adeilad yn llety gwyliau 7 ystafell.

Foel, Dinorwig – codi estyniad deulawr i ochr yr annedd.

Llwybrau. Cyflwynwyd gwahoddiad Cyngor Y Felinheli i gynrychiolaeth o'r Cyngor eu cyfarfod i drafod y llwybrau cyhoeddus. Gwirfoddolodd Siôn Jones, Hefin Williams, Richard Ll. Jones a Phyllis Ellis. Hefyd Aled Green ag Elfed Williams yn enwau wrth gefn.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - 2il o Ebrill 2013.

Y Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Chwefror oedd: £30: Mrs Ann Jones, Croesor; £20: Mr D.W. Jones, Dwyfor; £10: Mrs Ann Clark, 2 Pant y Waen.

Sefydliad y Merched Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad ar Fawrth 7fed i ddathlu Gŵyl Ddewi. Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Dr H.L. Roberts fel ein gŵr gwadd a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo, gyda lluniau, am ei fagwraeth ym Moelfre, lle adnabyddus iawn am forwyr. Roedd ei dad yn gapten ar y môr a'r rhan fwyaf o deulu ei dad hefyd ar y môr, rhai yn gapteiniaid. Er fod Dr Roberts, pan yn ifanc, yn awyddus i fynd i'r môr, nid oedd ei rieni yn fodlon ond mae o erbyn hyn yn hwylio llawer ac yn mwynhau ei hun. Diolchodd Catherine iddo am ei sgwrs, roedd pawb wedi mwynhau. Wedyn cafwyd te neis iawn wedi ei baratoi gan yr aelodau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 4ydd, pryd y ceir sgwrs gan Mr Craig Shuttleworth ar wiwerod coch Ynys Môn. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Merched y Wawr Nos Iau, 28 Chwefror, daeth yr aelodau at ei gilydd i ddathlu Dydd Gŵyl ein Nawddsant. Ers rhai blynyddoedd bellach rydym yn mwynhau pryd syml o gawl cennin, cacen gri a bara brith a baratoir gan y pwyllgor ac yn gwahodd un o aelodau'r gangen neu rywun lleol i roi pwt o sgwrs i ni. Eleni estynnwyd gwahoddiad i Mrs

Lowri Dunn, ein aelod hynaf, ond un sy'n fythol ifanc ei hysbryd. Daw Mrs Dunn yn wreiddiol o Nantmor, ger Beddgelert, lle magwyd hi gyda'i brawd a'i dwy chwaer ar fferm "a'r enw tlysaf yng Nghymru", sef Fferm Llygaid y Dydd. Wrth iddi ddisgrifio blynyddoedd ei hieuenctid i ni cawsom gip ar fyd a bywyd sydd wedi mynd heibio, byd y bleseirau syml, teuluoedd agos, capel dair gwaith y Sul, corau ac eisteddfodau. Fel cantores a thelynors ddawnus cafodd Mrs Dunn grwydro eisteddfodau yng nghwmni Telynors Eryri, Edith Evans. Yna daeth tro ar fyd, priododd a symud i fyw i Nottingham ond yno daliodd afael yn ei Chymreictod trwy ymuno â chymdeithas ffyniannus Cymry'r dref, a mwynhau amryw o weithgareddau gan gynnwys y cinio Gŵyl Dewi blynyddol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Lowri Dunn am y sgwrs ddifyr ac yn falch iawn ei bod wedi dychwelyd i'r ardal hon i dreulio ei hymddeoliad, oherwydd mae ei chymeriad annwylach ynnesyngaffaeliad mawr i'r gangen ac i'r pentref yn gyffredinol. Roeddem ni wrth ein bodd yn cael gweld lluniau o Mrs Dunn yn ferch ifanc gyda'r côr a hefyd cael craffu ar un o fwydlenni Gŵyl Ddewi Cymdeithas Cymru Nottingham gyda 'thostfeistr' a bwydlen grand, a seremoni Galw'r Siroedd!

Diolch yn fawr hefyd i Antur Waunfawr am ganiatau i ni gyfarfod yn y caffi clyd a chynnes i gynnal ein

dathliad blynyddol, ac i'n hysgrifenyddes weithgar, Mrs Irene Roberts, am drefnu'r cwbl mor effeithiol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen nos Iau, Mawrth 21, pryd y bydd Mr Gareth Roberts yn siarad am 'Crwydro llwybrau hanesyddol a chrwydro'r nos'. Yna, ar ôl y Pasg byddwn yn croesawu Cwmni Annog o Borthmadog atom i'r Ganolfan ar nos Iau, Ebrill 25. Bydd Mr Geraint Hughes yn siarad am waith y fenter yn annog busnesau lleol a bydd bwffe syml yn cael ei baratoi ar ein cyfer. Croeso i aelodau hen a newydd.

Dathlu Pen-blwydd Priodas Anfonwneinllongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Ron a Meira Turner, Collfryn, a fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Bu Terry a Lorna Parry, Rhos Celyn, yn dathlu eu Priodas Arian hefyd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad iddynt hwythau.

Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Chwefror bu Chris Legget, Gwynant, Teras Glyn Afon, yn dathlu ei ddeunaw oed ac yn ystod mis Mawrth bu Dewi Clark, 2 Stad Pant y Waun yntau yn dathlu ei ddeunaw oed. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Genedigaeth Daeth Elwyn Jones ac Eirian, 8 Ael y Bryn, yn daid a nain i ŵyl bach newydd, Cian, mab i Diane a brawd i Siôn ac Aron.

Adref o'r Ysbyty Dymunwn adferiad iechyd buan i Haydn Jones, Rhandir Mwyn, ac i Rol Williams, Ardwyn, wedi iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Profedigaeth Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Stanley Vaughan Roberts, Stad Bryn Golau, a theulu y ddiweddar Miss Nansi Roberts, Stad Tref Eilian, yn eu profedigaeth o'i cholli yn frawychus o sydyn.

Anfonwn ein cofion at Mrs Betty Griffiths, Gorffwysfa, sydd wedi mynd i aros i Gartref Preswyl Penisarwaun am gyfnod ac hefyd at Mrs Sara Lewis a fu'n dathlu cyrraedd ei 90 mlwydd oed yng Nghartref Penisarwaun. Gobeithiwn yn fawr ichi fwynhau eich diwrnod arbennig.

Yr Urdd Bu rhai o blant ac ieuenctid y pentref yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt a dymunwn bob llwyddiant i'r rhai fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro ddiwedd mis Mai.

Diolch Dymuna Ron a Meira Turner, Collfryn, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am bob cymorth a charedigrwydd a dderbyniasant ar ôl damwain Meira yn torri'i ffêr ac hefyd am y galwadau, cardiau a'r anrhegion a gawsant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.



GLANHAWR SIMDDE

Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd
Stôf goed a "Multi Fuel"
Aga/Rayburn- Olew/Nwyr
Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

Cangen Plaid Cymru

Cynhelir noson yng nghwmni Dafydd Iwan a Hefin Elis ar nos Sadwrn, 6ed o Ebrill yn Nhafarn y Snowdonia Park, Waunfawr. Y noson i ddechrau am 8 o'r gloch. Tocynnau yn £6 ac ar gael ymlaen llaw unai o'r dafarn, gen Eurig (650512) neu gan Hawys (876498).

Bydd noson arall hwyliog yn cael ei threfnu ar gyfer nos Wener, 26 Ebrill, hefyd yn y dafarn, sef noson o 'Sgwrs, Cawl a Chân' yng nghwmni Rhuanedd Richards, Prif Weithredwr Plaid Cymru a Pharti Canu Genod Gwyrfa.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Hawys neu Eurig.



CHWILOTA

Medalau Sioe Amaethyddol.

Yn ystod y mis diwethaf cefais gyfle i weld dwy fedal amaethyddol yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chais gan eu perchennog presennol am fwy o wybodaeth. Yn anffodus, aflwyddiannus fu'r ymdrech i gael lluniau digon eglur o'r arysgrif ar y medalau. Mae'r medalau bellach yn eiddo i Dafydd Morris, Clwt y Bont, ac yn cofnodi llwyddiannau mewn dwy sioe wedi eu trefnu gan Gymdeithas Amaethyddol Sir Gaernarfon; y naill yn 1897 a'r llall flwyddyn yn ddiweddarach. Yr hyn sy'n ddiddorol yw mai 1897 oedd y tro cyntaf i'r Gymdeithas drefnu Sioe Amaethyddol, er fod y gymdeithas ei hun wedi bod mewn bodolaeth ers degawdau.

Bu'n rhaid chwilota yn y wasg leol i gael mwy o wybodaeth!

Cynhaliwyd y sioe gyntaf (neu arddangosfa fel y gelwir hi yn y wasg) ar gae'r Oval, Caernarfon, a hynny ar yr ail o Fedi 1897. R.R.Stythe o Gaernarfon oedd yr ysgrifennydd a'r trefnydd. Yn anffodus, cafwyd tywydd anffafriol, ac nid oedd y cynnyrch cystal a'r disgwyl. Fel y gellid tybio, aeth y gwobrau am y da byw (ar wahan i'r defaid) i ffermwyr llawr gwlad, yn bennaf yn Eifionydd. Ond roedd gwobrau lleol hefyd. Y neidiwr ceffyl gorau oedd H. Parry, Fferm Glanrafon, Pontrug, a enillodd y wobwr gyntaf a'r drydedd wobwr. Bob Williams, Waunfawr oedd yr enillydd ar arddangosfa defaid, gydag O.Owens, Pontrug yn ail. Nid yw'n glir iawn a'i gwobr am y ci gorau a roddwyd yntau am y modd roedd y perchennog a'r ci yn cyd-weithio. I'r Waunfawr a Llanrug yr aeth y gwobrau am wneud menyn hefyd. Roedd angen paratoi tri phwys o fenyn wedi ei lapio fesul pwys. Roedd dwy gystadleuaeth: "made in the old style" a "made by a butter worker". Beth yn union oedd y gwahaniaeth? Lizzie Williams, Waunfawr ddaeth yn gyntaf gyda'r hen ddull, a Mary Parry o Lanrug gyda'r ail ddull.

Roedd yr ail sioe/arddangosfa yn fwy llwyddiannus. Fe'i

cynhaliwyd ar gaeau chware Ysgol Friars ym Mangor ar 16eg o Fedi 1898. Roedd y tywydd yn ardderchog, ac yr oedd dros chwe chant yn dangos – bron i gant a hanner yn fwy na'r sioe gyntaf.

Daeth cryn dipyn o wobrau i'r ardal y tro hwn hefyd, ac ardal Deiniolen a Llanberis yn ymddangos am y tro cyntaf ymhlith yr enillwyr.

Hugh W. Roberts, Llandinorwig oedd yn fuddugol gyda llo tarw dan 12 mis oed. Ym myd yr ieir yr aeth gwobr i Lanberis, gyda R. Roberts (does dim enw ty na stryd) yn gyntaf ac ail gyda "pen of Spanish". Rwy'n cymryd yn ganiataol mai brid arbennig o ieir oedd y rhain. Bydd angen i fridwyr lleol presennol fy ngoleuo ar pa fath!

I'r Waunfawr yr aeth y gwobrau am fenyn unwaith eto. Jane Roberts, Hafod y Rhyg Uchaf yn gyntaf, a Lizzie Williams, Bryn Beddau yn ail – y tro hwn am wneud menyn gyda "butter worker". Tybed ai'r un Lizzie Williams yw hon a'r un enillodd gyda'r hen ddull flwyddyn yn gynharach?

Cystadleuaeth ddiddorol oedd yr un am gynnyrch fferm gorau, sef 12 mangold, 12 rwdan, 12 meipen, ysgub o geirch ac ysgub o farlys. A'r enillydd oedd H. Parry, Fferm Glanrafon, Pontrug, gydag O.Jones, Wern, Caeathro yn ail. Sgwn i faint o'r cynnyrch hyn sy'n cael eu tyfu ar y ffermydd erbyn heddiw?

Mae'n ddiddorol nodi fod yr holl gystadleuthau wedi eu rhannu i ddau gategori: A a B. Y tirfeddianwyr oedd yn cystadlu yng Nghategori A, a'r tenantiaid yng Nghategori B. Medal yn unig oedd y wobwr yn nosbarth A, ond rhoddid medal ac arian yn wobwr yn nosbarth B.

Ym mha gategori tybed yr enillwyd y medalau sydd bellach yn ddiogel yng Nghlwt y Bont?

Pigion o 1902.

Tra'n catalogio rhai o ddogfennau cynnar Cyngor Sir Gaernarfon, deuthum ar draws y cyfeiriadau canlynol.

Cais am Ffair.

Ym mis Ionawr gwnaethpwyd cais ar y cyd gan gynghorau plwyf Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug i gael hawl i gynnal dwy ffair ym Mhontrhythallt yn ystod y flwyddyn. Roedd y cais yn pwysleisio fod y safle ym Mhontrhythallt yn un a fyddai'n ganolog i drigolion y tri phlwyf, ac yn ogystal, yn agos at orsaf y rheilffordd. Tybed ble roedd y tir dan sylw, ac a gafwyd ymateb cadarnhaol gan y Cyngor Sir? Doeddwn i erioed wedi clywed son am gynnal ffair yma o'r blaen, ac rwy'n amau a aethpwyd ymlaen a'r syniad.

Cenhades o Lanberis.

Soniais rai blynyddoedd yn ôl am Arddangosfa Genhadol a gynhaliwyd gan Henaduriaeth Arfon yn y Pafiliwn, Caernarfon yn 1929, ac fel yr oedd nifer o drigolion y fro yn cymryd rhan yn y pasiant a ysgrifennwyd gan Cynan. Cyhoeddwyd llyfr i gyd-fynd â'r Arddangosfa, ac ynddo ceir hanes nifer o genhadon o Arfon a oedd yn gwasanaethu dramor gydag enwadau gwahanol. Ond yn y llyfr, does dim son am Lena Closs Jones.

Does gen innau ddim gwybodaeth amdani chwaith, ond ym mis Mehefin 1902 cynhaliwyd cyfarfod ymadawol iddi yn Llanberis, gan ei bod ar fin gadael i fod yn genhades yn China. Ar wahan i'r ffaith mai yn y Snowdon Temperance roedd yn byw, dyna'r cyfan o wybodaeth sydd gen i amdani.

Oes unrhyw un o'r darllenwyr gyda gwybodaeth?

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau Racca
(ALWYN A SARAH JONES)
Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

Ymchwiliad

Cyhoeddus ym Mhenisarwaen.

CHWILOTA

Parhad



Yn ysgol y pentref ar ddiwedd Hydref, cynhaliwyd cyfarfod i drafod cwyn gan drigolion ardal Efail Newydd, Pontrhythallt fod llwybr cyhoeddus Fron Hywel wedi ei rwystro. Roedd yr achos eisoes wedi ei drafod yng Nghyngor Plwyf Llanddeiniolen, ond doedd perchennog y tir yn Fron Hywel ddim yn tycio, a throsglwyddwyd y gwyn i'r Cyngor Sir.

Mae'n ymddangos mai ffrwgwd digon diniwed oedd y cyfan. Roedd giat yn arwain o'r briiffordd i'r Fron Hywel, a defnyddid y giat gan y trigolion i gerdded y llwybr; yn bennaf i nôl dwr o ffynnon Fron Hywel. Gan fod y giat yn aml yn cael ei gadael ar agor, penderfynodd y perchennog roi clo arni, ond gosod camfa wrth ei hochr, fel nad oedd y trigolion yn colli eu hawl i nôl dwr. Ond doedd hynny ddim yn plesio! Roedd hi gryn dipyn anoddach cario llond piser neu bwced o ddwr dros gamfa!

Cytunwyd nad oedd rhwystr wedi ei osod ar y llwybr, ond penderfynwyd hefyd i geisio cyfaddawdu â'r perchennog yn y gobaith y byddai'r giat yn cael ei gadael heb glo!

Hen Adfeilion.



Dyma lun adfail yn Llanddeiniolen. Beth yw ei enw? Pa bryd y bu teulu'n byw ynddo ddiwethaf? Pwy oeddent?

A dyna'r cyfan am y mis. Y tro nesaf cawn hanes ffrae eglwysig ac ieithyddol ym Metws Garmon a'r Waunfawr. Anfonwch unrhyw ymholiad neu wybodaeth am agweddau o hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffon: 01286 673515).

BOSCH Service
Car Service

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AA MOT
AVW BOSCH Car Service

Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn ennill cefnogaeth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru wedi derbyn £60,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect arloesol GWARDHOD - Enwau Lleoedd Cymru. Mae'r prosiect yn un i Gymru gyfan. Dan arweiniad gwirfoddolwyr sy'n aelodau o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a chymunedau cefnogol lleol mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gasglu, cofnodi a gwarchod enwau Cymru. Mae hyn yn cynnwys enwau lleoedd, ffermydd, caeau, pyllau afonydd, murddunnod a llawer mwy.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf bydd cyfleoedd i bawb yn ddiwahân, i wirfoddoli, i gyfrannu ac i ddysgu am bwysigrwydd enwau a'r hanes y maent yn ei ddatgelu. Edrychwn ymlaen at groesawu pobl ifainc yn enwedig i gynorthwyo'r to hyn i ymgyfarwyddo â dulliau technolegol o gofnodi enwau yn eu cymunedau.

Bydd cyfle i unigolion a chymdeithasau i ddysgu sgiliau newydd mewn gweithdai, i drafod a chynllunio mewn cynadleddau ac i gydweithio i warchod enwau. Bwriedir cofnodi enwau ar fapiau digidol a chronfa ddata genedlaethol i'w gwneud yn hygyrch i bawb. Mae llawer o'n henwau lleoedd yn hynafol iawn, rhai'n dyddio'n ôl i gyfnod y tywysogion Cymreig. Dylid eu gwarchod fel mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio yn gwarchod henebion, yr amgylchedd ac adeiladau hynafol. Yn rhy aml o lawer, gwelwn enwau hynafol yn cael eu newid yn ddifeddwl neu eu cyfieithu gan ddinistrio'r enw a'r hanes ynghlwm wrth yr enw.

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn gymdeithas newydd sydd yn tyfu'n gyflym. Anelwn at gyrraedd dros 8,000 o wirfoddolwyr a'u galluogi i ymuno â ni yn y fenter genedlaethol gyffroes hon. Mae ein henwau lleol dan warchae ac mae brys i'w diogelu. Gall pawb wneud gwahaniaeth ac mae ewyllys da Dysgwyr a charedigion yr iaith yn hanfodol i lwyddiant y prosiect.

Wrth sôn am y dyfarniad, dywedodd yr Athro David Thorne, "Rydym wrth ein boddau ein bod wedi llwyddo i sicrhau cefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac yn hyderus y bydd y prosiect yn fodd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd a'u hynganiad lleol. Croesawn bawb sydd am gyfrannu, i gysylltu â ni."

Wrth egluro pwysigrwydd eu cefnogaeth, dywedodd Jennifer Stewart, Pennaeth CDL yng Nghymru, "Mae Enwau Lleoedd lleol yn rhan annatod o hunaniaeth genedlaethol Cymru sy'n cael eu gwreiddio'n aml yn y gorffennol pell. Rydym yn falch iawn i gefnogi'r prosiect hwn a fydd yn cymryd camau hanfodol wrth sicrhau bod yr enwau lleol yn cael eu cofnodi i greu adnodd cenedlaethol i bawb."

Sefydlwyd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru dan adain Cymdeithas Edward Llwyd ac mae'n cydweithio gyda hi, a sawl cymdeithas genedlaethol a lleol arall yng Nghymru sy'n rhannu amcanion tebyg. Mae'r rhain yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd, galluogi eraill i gofnodi a gwarchod enwau, i ddadansoddi a dehongli enwau; gweithredu fel cyfrwng i warchod enwau lleoedd Cymru; rhannu gwybodaeth a'i wneud yn hygyrch i bawb. Byddwn yn cydweithio'n agos yn ystod y prosiect gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Comisiwn Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Canolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, Cyngorau Sirol ac amryw gymdeithasau eraill sy'n rhannu'r un tir cyffredin â ni.

Am wybodaeth bellach, lluniau a chyfweiliadau, cysylltwch â:

Rhian Parry, Tytandderwen, Pencefn, Dolgellau, Gwynedd LL40 2ER

Neu drwy e-bost: barryg.allcott@btinternet.com

Neu drwy ein gwefan:

www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

Y Diweddar Bert Parry

Fe fagwyd Bert Parry yn 8 Stryd Turner, Llanberis, yn un o bedwar mab i Georgie ac Ellen Parry.

Penderfynodd yn ifanc iawn mai morwr oedd eisiau bod ac felly, yn groes i ddymuniad ei Fam, fe ymunodd â'r Merchant Navy yn bymtheg oed i deithio'r byd. Gwnaeth hyn nes dod yn ei ôl ar wyliau unwaith a chyfarfod Anne! Gadael y bywyd morwrol felly a phriodi Anne yn hytrach na derbyn y cynnig o gael ei wneud yn Gapten.

Ymgartrefodd Bert ac Anne yn Llanberis, lle ganwyd dwy ferch iddynt, sef Gwawr a Delyth, ac aderyn cartref fu Bert wedyn, yn hollol fodlon ar ei filltir sgwâr ei hun.

Bu'n gweithio yn Chwael Y Marchlyn am flynyddoedd, cyn ymuno wedyn â chwmni National Carriers. Wedi hyn bu'n gweithio gyda chwmni Group 4 yng Ngorsaf Bŵer Dinorwig ac yn agyda gwasanaeth llyfrgell y Cyngor Sir, tan ei ymddeoliad cynnar oherwydd gwaeledd. Roedd ganddo nifer fawr o ddiddordebau ac fe allai droi ei law at unrhyw beth. Fe dreuliai oriau lawer yn y garej yn gwneud ei ffyn sydd, erbyn hyn, yn cael eu gwerthu yng Nglynllifon.

Diddordeb arall ganddo oedd chwarae'r gitâr glasurol a fflamenco a bu hefyd yn dysgu'r grefft i nifer o blant y fro. Yn ddiweddar fe benderfynodd droi ei law at ddysgu chwarae'r Delyn a bu'n cael gwersi yn Y Galeri, Caernarfon.

Bu'n gweithio'n galed iawn am flynyddoedd lawer efo'r Blaid ac fe gafodd bleser mawr yn gwneud hyn. Hefyd, bu'n aelod o Gyngor Cymuned Llanberis yn ogystal â bod yn Llywodraethwr ar Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail.

Roedd yn aelod ffyddlon iawn o Gwmni Drama Llanberis ac roedd yn un o'r criw a sefydlodd Theatr Fach Gorffwysfa, lle cafwyd llawer i noson fythgofiadwy gyda Bert yn tynnu coes ei gyd-actorion.

Pysgota oedd yn mynd â'i fryd yn aml iawn, ac fe wnaethai ei blu ei hun gan nad oedd plu siop yn ddigon da! Fe enillodd lawer i gystadleuaeth dros y blynyddoedd ond roedd y pleser a gawsai wrth bysgota yng nghwmni ei ffrindiau yn llawer pwysicach i Bert.

Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Coch, ac fe gawsai gysur mawr yn mynychu'r gwasanaethau yn ogystal â nifer o weithgareddau eraill y capel. Cafodd ei godi yn Flaenor yno ac roedd yn hynod falch o'r fraint.

Er ei amryw ddiddordebau a'i fywyd prysur, yr hyn a roddai'r pleser

mwyaf iddo yn y blynyddoedd diwethaf oedd gweld ei wyrion, wyresau a'i or-wyresau yn tyfu i fyny. Fe fyddai bob amser yn sôn wrth hwn a'r llall am eu llwyddiannau yn yr ysgol neu mewn cystadlaethau amrywiol. Byddai yn hoffi sôn amdanynt ac roedd hyn, medda fo, yn rhoi cyfle iddo anghofio am ei salwch ei hun.

Byddai Bert yn dweud yn aml iawn mai Anne, ei wraig, oedd y rheswm iddo oresgyn yr holl anhwylder a fu arno dros y blynyddoedd diwethaf ac mai hi oedd ei angor.

Rhodddwyd Bert i orffwys ym mynwent Nant Peris ar Fawrth 9fed yn dilyn gwasanaeth teuluol yn ei gartref ac yna gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Coch, Llanberis.

Diolch Dymuna Anne, Gwawr a Delyth ddiolch o galon am y llu cardiau, rhoddion a'r geiriau caredig a gafwyd gan gynifer fawr o ffrindiau a pherthnasau yn dilyn ymadawiad Bert Parry, Sycharth, Llanberis. Mae'r teulu yn hynod o ddiolchgar i'r Parchedig John Pritchard am yr hyn oll a wnaed ganddo yn ystod gwaeledd Bert ac wedi hynny.

Diolch i'r Parchedig John Owen, Rhuthun (Llanberis gynt), y Parchedig Marcus Robinson a Dafydd Iwan am eu rhan deimladol yn ystod y gwasanaeth ac ym mynwent Nant Peris.

Hefyd, diolchir yn gynnes iawn am y teyrngedau a roddwyd gan Gareth (ŵyr hynaf Bert), Rhiannon Williams, y Parchedig John Owen, y Parchedig John Pritchard a Lesley Jones.

Diolch i Jan Jones, Tŷ Bloda, Caethro, am drefnu blodau'r teulu mor eithriadol o effeithiol ac i Miss Dilys Mai, Hacia, am ei threfniant blodau hyfryd yn y capel. Diolch i Bethan Holding am ei gwasanaeth wrth yr organ. Hefyd, diolch i holl aelodau'r teulu am y blodau a gafwyd ganddynt, roeddynt yn werth eu gweld.

Dymuna'r teulu ddatgan eu diolch i Gwynfor a Jane, trefnwyr angladdau E.W. Pritchard, Llanberis, am eu gwaith proffesiynol ac i Westy Y Fictoria, Llanberis am y lluniaeth a ddarparwyd.

Mae diolch hefyd yn cael ei yrru at Ambiwlans First Response a fu allan droeon yn cynorthwyo Bert tra roedd yn wael. Hefyd, Diolch o waelod calon i feddygon, nyrsys a gweddill staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal diflino am Bert dros flynyddoedd lawer. Bydd yr holl roddion ariannol mae'r teulu yn ei dderbyn yn cael eu rhannu rhwng Meddygfa Waunfawr ac Ambiwlans First Response.

Bert Parry 'Sycharth', Llanberis Er cof

Nawr mae'n rhydd o'i gystuddiau – a di-boen
wedi byw mewn poenau,
bywyd brwd er iechyd brau
yn weithiwr dros 'Y Pethau'.

Gwladwr o forwr a fu yn ei fyw
yn wyllt fôr dros Gymru,
daeth 'sgotwr, capelwr cu
i rasol rwyd yr Iesu...

Norman Closs

CWMY GLO

Llongyfarchiadau i Siôn Arfon, Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21.

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Melvyn a Mair Evans, Llanrug, yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl, sef Mrs Nancy Evans, priod y diweddar Aled Evans, Tŷ Newydd.

Anfonwn ein cofion at Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, hefyd ei chwaer, Sarah, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Preswyl Penisarwaun. Hefyd Mrs Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon, ac amryw eraill sydd heb fod yn dda yn ystod y misoedd diwethaf.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys Sant Mair, Caernarfon, bnawn Mawrth, 19 Mawrth. Cafwyd pnawn tawel a gweddiau oedd pwnc y rheithor, y Parch Roger Donaldson. Yn absenoldeb Mrs Auriel Howels yr oedd y cyfarfod yng ngofal Mrs Louie Jones. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ar 19 Chwefror a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Doedd dim materion i'w trafod. Cafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Mrs Jenny Salisbury Jones a Mrs Pat Walden a diolchwyd iddynt gan Louie. Rhodddwyd y raffl gan Louie ac fe'i henillwyd gan Mrs Bet Owen.

Terfynwyd trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf 16 Ebrill yn Feed my Lambs.

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnewid drwy Warant 3420271

Diolch Dymuna Margaret, Christine, Gaerwen, Terence, Andrew a'r teulu ddiolch o galon i ffrindiau a phawb yn Llanberis a'r ardal am bob arwydd o gydymdeimlad a fynegwyd tuag atynt ar ôl colli Gŵr, Tad a Thaid arbennig o annwyl, sef Hugh Bach Llainwen.

Diolch am y galwadau ffôn, y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd. Hefyd, diolch i bawb ym Meddygfa Llanberis, Mr Barry Davies a Ward Glyder am y gofal da a dderbyniodd Hugh.

Bydd y rhoddion yn cael eu rhannu rhwng Ward Glyder ac Ymatebwyr Cyntaf Gwasanaeth Ambiwylans Cymru.

Diolch. Dymuna Eirwen a theulu'r diweddar Lizzie Pugh, 6 Stryd Siarlot, Llanberis, ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain a hen hen nain annwyl ac arbennig. Diolch am y rhoddion hael tuag at Tŷ Gobaith. Casglwyd £250 er cof amdani.

Diolch yn arbennig i'r Barchedig Ddr Carol Roberts a'r organydd, Iwan Williams, am eu gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn ac i gwmni E.W. Pritchard, yr ymgwymerwyr, am eu trefniadau trylwyr. Diolch hefyd i Westy'r Padarn Lake am y lluniaeth ardderchog. Diolch o galon i chi i gyd.

Diolch Dymuna teulu'r diweddar James Gordon Jones ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli tad, taid, brawd a ffrind annwyl. Gwerthfawrogir y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Jim, sydd yn mynd at Ward Pablig Ysbyty Eryri a Meddygfa Llanberis.

Hoffem hefyd ddiolch i'r cludwyr yn yr Eglwys, sef Paul, Neil, Dylan, Euron, Saad a Colin ac i Patrick Willis, Ian Pritchard Jones, Maldwyn Jones a John Williams yn yr amlosgfa.

Ein diolchiadau i'r Barchedig Ddr Carol Roberts am ei gwasanaeth teimladwy, i Euron Davies am dalu'r deyrnged, i Heather Jones yr organyddes, i swyddogion Eglwys Sant Padarn ac i Dafydd Owen am ganu'r gloch. Diolch i Westy'r Padarn Lake am drefnu'r bwyd. Yn olaf, diolch i Gwynfor a Jane o ymgwymerwyr E.W. Pritchard am y trefniadau trylwyr a phroffesiynol. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Y Gymdeithas Undebol Cafwyd noson hwylus a braf pan fuom yn ymweld â Chanolfan Hanes Uwch Gwyrfaei yng Nghlynnog ar Fawrth y 12fed. Cafwyd golwg ar fywyd a gwaith Eben Fardd. Cymerwyd rhan gan Geraint Jones, Dawi Griffiths, John Dilwyn Williams, Twm Elias a darllenwyd rhai o'i gerddi gan Sera, Huw a Diane.

Cydganodd y gynulleidfa un o'i emynau gwirioneddol fawr, sef 'O Fy Iesu Bendigedig' sydd yn mynegi dyfnder ei brofiad, ar y diwedd. Rhoddwyd y diolchiadau ar ran y Gymdeithas gan y Parchedig John Pritchard. Cafwyd paned a bisgedi ar y diwedd a diolch i Mrs Marian Elias am drefnu ac i fsysys D.P. Owen Rhiwlas am y cludiant.

Ar y 9fed o Ebrill byddwn yn terfynu tymor Y Gymdeithas gyda'n Cinio Blynnyddol yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Y gwahoddedigion fydd Mr a Mrs Dei Tomos, Nant Peris.

Bydd Pwyllgor ym Mis Mehefin, dyddiad i'w drefnu, a bydd y Tymor nesaf yn ail ddechrau ym mis Hydref.

Ysgol Dolbadarn

Ar Ddydd Gŵyl Dewi cafodd y plant gyfle i wisgo dillad i ddathlu'r Wyl a chafodd pawb gyfle i gyfrannu arian tuag at gronfa 'Jins neu Genes', sydd yn casglu arian tuag at Cystic Fibroses. Casglwyd bron i £150.00.

Zumba Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Heidi Petch Jones am ddod atom i roi blas ar ddawnsio Zumba i flwyddyn 3+4 yn ddiweddar. Mae'r plant wedi astudio rhai o ddawnsfeydd y Byd a chawsant flas ar y ddawns Zumba a ddawnsio llinell yn ystod y sesiwn.


Diwrnod Y Llyfr Bu i'r disgyblion fwynhau dathlu Diwrnod y Llyfr yn ddiweddar gan wisgo fel cymeriadau o lyfrau Cymraeg am y diwrnod. Yr oedd nifer o weithgareddau yn ystod y dydd gan gynnwys trafod hoff lyfr, adolygu llyfrau a chreu ffeil ffeithiau am awduron.



Dosbarth B1 3/4 ar Ddydd Gŵyl Dewi.



Dosbarth Meithrin yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.



Llongyfarchiadau i Deio Roberts a ddaeth yn ail ar yr unawd B13/4 yn Eisteddfod Cylch Arfon yr Urdd.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaei Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Yr Urdd - Aeth y Tim Pelrwyd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan yr Urdd yng Nghanolfan Arfon nos Fawrth Ionawr 8fed. Diolch i'r plant am wneud eu gorau ac am gymorth y rhieni ar y noson.

Gwersi Tennis - Cynhelir y gwersi bob bore dydd Iau yn y Ganolfan Tennis yng Nghaernarfon.

Gweithdy Storiâu - Treuliwyd bore difyr iawn yng nghwmni'r awdures Mari Gwilym fore dydd Llun Ionawr 21ain.

Gwasanaeth boreol - Daeth Mr Andrew Settatee i'r Ysgol bore dydd Mawrth Chwefror 5ed a Mawrth 12fed i gynnal y gwasanaeth.

Gala Nofio - Bu rhai o ddisgyblion Bl 3 i 6 yn cymryd rhan mewn Gala Nofio yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon dydd Iau Chwefror 7fed. Llongyfarchiadau i bawb am gymryd rhan.

Eisteddfod Cylch yr Urdd - Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn Chwefror 23ain. Diolch i bawb am wneud eu gorau, a llongyfarchiadau i'r Parti Unsain a ddaeth yn 1af, ac Elin Thomas yn 2ail ar yr unawd piano. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Sir a gynhelir yn Neuadd Pritchard Jones Bangor dydd Sadwrn Mawrth 16eg.

Dydd Gŵyl Dewi - Fel rhan o'r dathliadau aeth rhai o blant yr ysgol i Gartref Nyrsio Penisarwaen pnawn dydd Iau Chwefror 28 i gyflwyno gwahanol eitemau o adloniant i'r preswylwyr yno. Roedd pawb wedi mwynhau cymryd rhan.

Cafodd y plant gyfle i ddod i'r ysgol mewn gwisg yn gysylltiedig â Chymru ar Fawrth 1af. Yn y prynhawn cynhaliwyd pnawn Te Cymreig gan bwyllgor y Neuadd Gymuned gyda phlant yr ysgol yn paratoi'r adloniant. Roedd llawer o wahanol bobol o'r

Gymuned wedi troi mewn ac wedi mwynhau eu hunain yn arw. Gobeithiwn gynnal prynhawn tebyg y flwyddyn nesaf.

Apêl Marie Curie - Cefnogodd yr ysgol yr apêl deilwng yma eto eleni gan werthu Cennin Pedr ar bin. Cyfanswm y casgliad oedd £28.30c. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Fformiwla 1 - Cafodd blant Bl 5/6 ddiwrnod arbennig yn Venue Cymru, Llandudno ar Fawrth 4ydd. Fe fuon yn dylunio car rasio Fformiwla 1 gan ddefnyddio meddalwedd arbennig ac yna cafwyd rاس cyffrous yn erbyn ceir sgolion ledled Gogledd Cymru. I orffen y dydd, roedd arddangosfa wyddonol i'n diddori, hefyd.

Gwasanaeth - Cynhaliwyd gwasanaeth i Bl 5 a 6 gan Rhian Jones o "Childline" bore dydd Mercher Mawrth 6ed a dydd Gwener Mawrth 15fed.

Ymweliad - Daeth Ficer Eglwys Santes Helen, Parch Lloyd Jones i ymweld â Bl 3 a 4 pnawn dydd Mawrth 5/3/13. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo.

Gŵyl Athletau - Bu rhai o blant CA2 yn cymryd rhan mewn Gŵyl Athletau ar gyfer ysgolion Cylch Arfon dydd Mercher Mawrth 13eg. Cafodd pawb hwyl wrth gystadlu gyda phlant o'r gwahanol ysgolion eraill.

Diwrnod Hyfforddiant - Cynhelir diwrnod o hyfforddiant i'r staff dydd Llun Ebrill 8fed. Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant dydd Mawrth Ebrill 9fed.

Dathlu diwrnod y llyfr - Cafodd dosbarth y Babanod gyfle i ddod a'i hoff lyfr i'r ysgol a gwisgo i fyny fel un o'r cymeriadau yn y llyfr. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod a gweld y gwahanol lyfrau.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Dyma enwau'r enillwyr hyd yma eleni. Ionawr Mrs Eiriona Williams Glyn Euron rhif 11. Chwefror Mrs Mair Orrock Glanrafon Rhif 36. Llongyfarchiadau iddynt. Diolch i bawb am gefnogi'r bel bonws. Mae un rhif yn sbâr. Os oes gan unrhyw un a diddordeb mewn ymuno cysylltwch â Liz Jones ar 01286 872421 neu Janet Ash ar 01286 871265 diolch.

Dymunwn wellhad buan, ac anfonwn ein cofion at Mrs Kate Rosser Llys y Gwynt sydd yn parhau yn Ysbyty Gwynedd ar ôl cael llawdriniaeth yn dilyn damwain yn ei chartref cyn y Nadolig.

Yn yr un modd anfonwn ein cofion at unrhyw un o'r pentref sydd ddim wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Elen Wyn Hughes, Waen, am ennill gwobr Disgybl y Flwyddyn yng Ngwynedd.



GEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com


Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch **AC**
mewn cymhorthfa, yna
cysylltwch ag ef yn ei
swyddfa yng Nghaernarfon
neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE

01286-672076

neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248- 372948

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Cynllunio Gardd Bywyd Gwyllt a Border Neithdar

Canolfan Astudiaethau Maes Rhyd y Creuau,
Betws-y-coed, LL24 0HB

Dydd Mawrth 9 Ebrill 2013, 9:00 -13:00

Ydych chi'n awyddus i ychwanegu lliw at eich gardd a denu mwy
o fywyd gwyllt? A yw'r ardd yn eich ysgol leol, eich llyfrgell neu
eich meithrinfa, neu mewn gwyrddfan gymunedol arall, angen
rhywfaint o ofal a sylw?

Gall y cwrs hwn eich rhoi ar ben ffordd, eich helpu i gynllunio
eich gardd bywyd gwyllt eich hun, a rhoi gwybodaeth a phrofiad
ymarferol i chi ar gyfer creu eich border neithdar eich hun er
budd gwenyn a glöynnod. Bydd y ddwy awr gyntaf yn cynnwys
cyflwyniad byr i arddio bywyd gwyllt a phlannu, ac yna bydd
gweithdy'n cael ei gynnal ar gynllunio eich gardd bywyd gwyllt
eich hun. Wedyn, byddwn yn cynllunio ac yn plannu border nei-
thdar ar safle'r Ganolfan Astudiaethau Maes yn Rhyd y Creuau.

£35 y pen

- 9-10 - Cyflwyniad i arddio bywyd gwyllt
- 10-11 - Cynllunio eich gardd bywyd gwyllt eich hun
- 11-11.15 - Egwyl i gael te a chyfle i drafod y cynlluniau
- 11.15-13.00 - Cynllunio a phlannu border neithdar

CEWCH HADAU BLODAU GWYLLT YN RHAD AC AM
DDIM I FYND ADREF

Ni chaiff cinio ei gynnwys, ond mae croeso ichi ddod â phicnic
gyda chi i'w fwynhau gyda ni ar ôl y cwrs. Dewch â dillad glaw
gyda chi, yn ogystal ag esgidiau sy'n addas ar gyfer gweithio yn
yr awyr agored.

I drefnu lle cysylltwch â Rosie Barratt rosiebarratt@wild-lifetrustswales.org, 07772280975,
neu Bleddyn Williams 01248 351541



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch **AS**
mewn cymhorthfa, yna
cysylltwch ag ef yn ei
swyddfa yng Nghaernarfon
neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE

01286-672076

neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248- 372948

williamshy@parliament.uk



Dim ond **£159*** y mis

Gyda

3

Blwyddyn o **yswiriant**

Blwyddyn o wasanaeth arferol

Blwyddyn o dreth y car

Blwyddyn o wasanaeth achub

Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i ddreifwyr
dros 21 oed!



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu
mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y
cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

MOTION & EMOTION



PEUGEOT

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251

www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,553.73; 35 taliad misol o £159.00; cost credit a ffioedd £1,280.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £199.65.
Tolerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol.
Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 - 34.9 (3.6 - 8.1), Extra Urban 88.2 - 62.8 (3.2 - 4.5), Combined 83.0 - 48.7 (3.4 - 5.8) a CO2 87 - 135

Llowcio

Petawn i'n prynu wy (neu wyau) Pasg i mi fy hun - neu gorau oll, petai rhywun arall yn eu prynu i mi - fyddwn i fawr o dro yn eu claddu. Does dim yn bod ar fy stumog na'm llwnc ar hyn o bryd, trwy drugaredd. Ac rwy'n ymwybodol iawn bod gen i le mawr i ddiolch i Dduw am hynny. Ac wrth i ni lowcio'r wyau Pasg eleni, diolchwn hefyd fod y Duw Mawr yn llowciwr heb ei ail. Oherwydd, fel y proffwydodd Eseia, 'Efe a lwnc angau mewn buddugoliaeth' (Eseia 25:8). Mae'r Apostol wedyn yn dyfynnu'r geiriau hyn yn un o'i lythyrau at yr eglwys yng Nghorinth (1 Corinthiaid 15:54).

Mae'n ddarlun mor rhyfeddol o'r hyn y mae Duw'n ei wneud. Wrth ddyfynnu'r geiriau, mae Paul yn sôn am bethau sydd eto i ddigwydd i bawb a gredodd yn Iesu Grist erioed. Mae'n dweud eu bod i gael eu codi o farw ryw ddydd, i'w 'gwisgo' ag 'anllygredigaeth' ac 'anfarwoldeb'. Dyma addewid sicr y Beibl i ni o'r 'atgyfodiad i fywyd tragwyddol' i bawb sy'n credu ym Mab Duw. Nid y byd hwn yw popeth. Ac nid marwolaeth yw diwedd y daith. Trwy ffydd yn Iesu Grist, mae gennym addewid o fyd arall a bywyd newydd. Oherwydd, medd Paul wrthym, mae angau ei hun wedi ei lyncu.

A dyna ddarlun yw hwn! Un llowc mawr, ac angau'n colli'r dydd. Mae'r Pasg yn gwbl ganolog i'r stori, gan mai trwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist y trechwyd marwolaeth. Mae'r Pasg yn dweud am Iesu - nad oedd rhaid iddo farw o gwbl - yn wynebu marwolaeth er mwyn i ni gael byw. Do, bu farw Iesu ar groes Calfaria er mwyn trechu marwolaeth ei hun. Mae ef wedi marw yn ein lle ni, ac wrth ddod yn ôl yn fyw, mae wedi gorchfygu marwolaeth trwy chwalu gafaél marwolaeth ar bawb sy'n credu ynddo. Nid gan angau, felly, y mae'r gair olaf bellach. Gelyn sydd wedi ei ddinistrio yw marwolaeth; ac er i ni orfod ei wynebu, fe wnawn ni hynny gan gredu y bydd ein heneidiau'n ddiogel gyda Duw pan ddaw bywyd yn y byd hwn i ben. Ond nid dyna ddiwedd y stori gan mai'r prawf terfynol o'r ffaith fod Duw wedi llowcio angau'n llwyr fydd ein hatgyfodiad ninnau. Yn union fel y cododd Iesu o'r bedd fore'r Pasg, ryw ddydd fe gyfodir pawb sy'n credu ynddo, i'w gwisgo â'u cyrff ysbrydol, newydd.

JOHN PRITCHARD

Cronfa Apêl Llifogydd Gwynedd

Annwyl Olygydd

Yn dilyn y llifogydd a welwyd yng Ngwynedd yn Nhachwedd y llynedd, mae yna gyrff ac unigolion wedi nodi yr hoffent gyfrannu at gronfa i helpu'r rhai a effeithiwyd.

Er mwyn dyrannu'r arian a dderbyniwyd bwriadaf gau'r gronfa yma ar 26 Ebrill.

A gaf erfyn ar eich darllenwyr felly i nodi pe byddai unrhyw un pellach yn dymuno cyfrannu at y gronfa, fe ddylent sicrhau fod y cyfraniad hwnnw yn cael ei anfon at Cronfa Llifogydd Gwynedd, Adran Gyllid, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH cyn y dyddiad hwnnw.

Dichon y bydd rhai o'ch darllenwyr a effeithiwyd gan y llifogydd yn gymwys i weend cais am gyfraniad o'r Gronfa.

Os am wneud cais gallant gael ffurflen briodol drwy ffonio 01286 679592 neu e-bostio CronfaApelGwynedd@gwynedd.gov.uk. Gellir hefyd ei lawrlwytho o safle we'r Cyngor yn y cyfeiriad canlynol www.gwynedd.gov.uk/cronfaapelgwynedd.

Bydd gofyn dychwelyd y ffurflen gais cyn 26 Ebrill.

Yn gywir

Evan Selwyn Griffiths

Cadeirydd

Y Ddau Lais

Casgliad Gwych o Ddeuawdau poblogaidd

Mae'n anodd esbonio beth yn hollol yw apêl dau lais yn canu mewn harmoni, ond mae'n sicr wedi bod yn nodwedd amlwg o ganu poblogaidd Cymraeg ers tro byd. Enw sy'n taro cloch i lawer, yn enwedig yn ardal Dyffryn Nantlle, yw'r Brodyr Francis, ac mae'n bosib dadlau mai nhw oedd y 'cantorion pop' cyntaf yn y diwylliant Cymraeg, ond yn anffodus, nid oes unrhyw recordiad ohonynt (hyd y gwyddom) ar gael. Mae enwau'r brodyr Jac a Wil o Gefneithin yn dod o gyfnod ychydig yn ddiweddarach, a'u disgiau yn dal i werthu'n rheolaidd. Ar eu hôl nhw daeth nifer o ddeuawdau i serennu wrth i'r byd pop Cymraeg dyfu, a chlywir rhai ohonyn nhw yn y casgliad hwn – Aled a Reg, Tony ac Aloma, Vernon a Gwynfor a Rosalind a Myrddin yn eu plith. Wrth i ganu gwlad fagu gwreiddiau yn Gymraeg, daeth nifer o ddeuawdau eraill fel Iona ac Andy, John ac Alun, Broc Môr a Dylan a Neil, i'r amlwg.

Mae'r rhan fwyaf a enwyd wedi gwneud eu marc fel deuawdau sefydlog, ond weithiau daw dau lais unigol at ei gilydd ar gyfer gwneud recordiad arbennig, a dyna a ddigwyddodd gyda Gillian Elisa a Iona, Wil Tân a Karen Mônheili, Edward a Mary Hopkin, a Huw Jones a Heather. Yn achos 'Gary a Susan', daeth Bryn Fôn a Morfudd Hughes at ei gilydd ar gyfer cyfres deledu am ddeuawd canu gwlad. Ac, wrth gwrs, roedd Ryan a Ronnie yn enwog fel deuawd gomedi yn ogystal â deuawd gerddorol.

Difyr hefyd yw sylwi ar y cysylltiad teuluol sydd rhwng cynifer o'r deuawdau Cymraeg hyn – Rosalind a Myrddin, Iona ac Andy (gŵr a gwaig), Dylan a Neil (tad a mab), Brodyr Gregory a Broc Môr (brodyr), Tonig (dwy chwaer), a Gwenda a Geinor (mam a merch). Ond beth bynnag yw'r rheswm, mae'r casgliad hwn yn profi fod poblogrwydd ac apêl y ddau lais Cymraeg mewn harmoni cyn gryfed ac erioed.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:


Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

Age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK a dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1



Ar ben arall i'r lein

Mi aeth dechrau'r tymor ar 3ydd Mawrth heibio yn ddigon tawel, do mi es allan ar ôl cinio Sul am rhyw awr neu ddwy, ond fel arfer segur oedd y badell. Gyda'r tywydd yn eithriadol o oer a dim pryfyn i'w weld ar y dŵr, mwy nag oeddym yn disgwyl gweld 'run chwaith, ond er hyn i gyd mi oedd yn bleser cael cerdded y glannau gyda'r enwair unwaith eto. Un peth oedd yn galonogol dros ben oedd gweld y nifer o gorbatoedd ar wely'r afon, dwi ddim wedi gweld cyn gymaint mor gynnar yn y flwyddyn ers blynyddoedd maith. 'Sgwn i a yw hyn yn arwydd fod pethau yn dechrau troi am y gwell ar ôl yr holl flynyddoedd o newyn. Mae un peth yn sicr mi fydd nifer dda o Bryfaid y Gwellt ar y dŵr pan gynhesith rhyw ychydig. Ond y ffefrynnau i'w defnyddio yn gynnar y tymor yw Llwyd Corff Main, Greenwells a Clust Sgwarnog. Hefyd Pennel Ddu a Snipe corff oren neu gorff piws.

Cyfeiriais mis diwethaf at gyfarfod o Bwyllgor Pysgodfeydd Gwynedd yn Nhrawsfynydd, cefais y teimlad fod rhyw wefr negyddol yn bodoli tuag at ein hymdrechion i ymestyn tymor pysgota'r eog. Mae arbrawf yn rhedeg ers rhai blynyddoedd i gael y dyddiad cau blynyddol ar 15ed Tachwedd. Ein cred yw, gan fod pob eog yn cael ei ddychwelyd i'r afon ar ôl 17 Hydref, ni fuasai pysgota felly yn rhoi straen ar, nac yn dirywio'r stoc.

Yn dilyn blynyddoedd o adrodd fod y Seiont yn afon sy'n raddol wella, nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd bellach yn sicr o hyn gan efallai fod yr afon bellach yn dirywio'n sylweddol. Be sy'n digwydd felly – wel, fel arfer, mae eisiau mwy o drafodaeth ar y mater! cawn wel be ddaw ar hyn. Ond, yn dilyn y datganiad yma, mae'n rhaid ailystyried ein parodrwydd i gytuno prydles hir dymor gan, efallai, os yw adroddiad yr Asiantaeth yn gywir yna fe fuasai oblygiadau cyfreithiol i'r clwb dalu arian am rhywbeth sydd a dim gwerth ariannol iddo bellach.

Rwyf wedi trafod y datganiad syfrdanol yma gyda ffermwyr lleol a diolch iddynt maent yn deall y sefyllfa ac yn ymddiried yn y gymdeithas i geisio gwella'r sefyllfa a dod â gwerth yn ôl i'w eiddo. Bellach does ond Stad y Goron i gytuno i sefyll gyda'r clwb, a hyd yn hyn, yn anffodus, tydi asiant y corff ddim i'w weld yn deall y sefyllfa o gwbl, a dwi'n dal i ddisgwyl ei fodlonrwydd i drafod y mater, ond mae mistar ar mistar mostyn medda nhw!

Yn dilyn blynyddoedd o ymdrechu mae'r gymdeithas ynghyd â Chymdeithasu'r Prysor ac Ogwen, wedi eu derbyn fel aelodau o Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy a Clwyd, gyda'r enw swyddogol yn awr yn cynnwys Gogledd Orllewin a Môn. Mae ein cadeirydd, Dr. Robin Parry, wedi ei benodi fel un

o ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth newydd. Dymunwn pob llwyddiant iddo yn y rôl bwysig yma. Gobeithio yn wir y bydd yn bosibl denu tipyn o'r arian sy'n sgelfrio yng nghoffrau Afonydd Cymru, sef corff rheoli ymddiriedolaethau afonydd Cymru, i'r gornel yma wlad.

Ar ôl cyfeirio at ddyddiadur Robert Thomas, sy'n rhedeg dros y blynyddoedd 1809-1824, mae tipyn mwy o wybodaeth wedi dod i law - fferyllydd oedd o ran galwedigaeth gyda siop yn Pendist, Caernarfon. Fe symudodd i fyw at ei nith, Miss Joyce, yn Erw Pwll y Glo, Llanddeiniolen. Wel dyna le delfrydol i 'sgotwr fyw, yn edrych dros yr Saint am Bontrug. Mae wedi gadael inni lawer o hen enwau, rhai nad oeddwn wedi ei clywed o'r blaen.

Dyma rai o'i gyfeiriadau: Melin Byrns yn ardal Pontrug, Marddwr Pont Rhythallt, Twll wrth ymyl Ffatri Pontrhythallt, Coed Glanrafon, Sarn Pontrug, Cae Tre Hen Beblig a'r pwll uwchben ble wnaeth dynes foddi. Coed Mr Garnon, Melin Bodreual, Sgota o Bont Peblig i'r felin bapur.

Ar 22 Hydref 1816 fe ddaliodd ddau eog, un ym mhwl Caer Glyddyn am 15 pwys a un am 19 pwys yn Llyn Engan, gyda phluen Deryn y Bwn. A does dim yn newid chwaith - 22 Mawrth 1816 - eira mawr yn gorchuddio'r Wyddfa.

1af. Mehefin, 1820, fe gafwyd helfa o 20 o frithyll o Lyn Uchaf Llanberis gan Evan Evans o Lanberis.

Yn y misoedd i ddod rwy'n gobeithio rhoi tipyn mwy o hanes pysgota'r hen Bob i chwi, yn enwedig ar y Gwyrfa, Llyfni a Cwm Dwythwg fel mae'n cyfeirio at Dwythwch.

Yn ddiweddar rwy'n cyfeirio yn rhy aml o lawer at golli rhai o ffyddloniaid y gymdeithas. Cyn y Nadolig fe gollwyd Cledwyn Jones, Ysbyty. Ar ddechrau Mawrth fe ymadawodd Bert Parry, Llanberis â ni, colled enfawr i'w deulu. Bu Bert yn dioddef yn ddewr a thawel am amser maith. Roedd yn aelod gweithgar o'r pwyllgor gwaith gyda gwybodaeth eang am Lyn Padarn a'r Seiont. Bert oedd ymysg y cyntaf i ymateb i'r alwad am hen luniau a hanes y clwb. Rwy'n gobeithio y bydd y gwaith o roi tipyn o'r hanes yma at ei gilydd wedi'i gwblhau yn ystod y misoedd nesaf. Heb frwdfrydedd Bert, eistedd ar fy nwylo y buaswn i o hyd, mwyaf tebyg.

Yn ogystal â physgota roedd Bert yn feistr ar aml i gamp, yn enwedig y gitâr. Yn ddiweddar hefyd cefais wybodaeth ei fod yn distaw bach wedi bod dysgu'r delyn. Cynganeddu, gwneud ffyn, clymu plu, roedd yn gallu troi ei law at unrhyw beth.

Mae cydymdeimlad y Gymdeithas i'w estyn yn ddiffuant iawn atoch chwi fel teulu, a hefyd diolch iti, Bert, am dy gwmni a'r hwyl, yn enwedig ar Lyn Dinas.

Huw Price Hughes

Cyffwrdd Gwilym
Ffrindia'
yng Ngwynedd
- Rhwng eich ffydd mewn ffrind -

Oes gennych chi ychydig o oriau i'w sbario?
Ydych chi yn berson cymdeithasol?
Hoffech chi wneud gwahaniaeth?
Fedrwn chi gynnig cyfeillgarwch?

Mae **Ffrindia'** angen
Gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi
Unigolion dros 50 oed sydd angen
cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch
gyda:
NIA HAF JONES
01286 685929
nia@mantellgwynedd.com

FINE ART

ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**
Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu
biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â **Gomer Roberts**
Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**
Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

COFIO 3: MENYWY PWLL A’RMYNYDD



Athletwraig amryddawn, amlochrog, bron iawn yn unigryw yw’r ‘gwestai’ y tro yma.

Mae Stel Farrar, Hafodty, Dinorwic yn enw cyfarwydd ar sawl lefel.

Daeth Stel draw o’i Nottingham genedigol i Brifysgol Bangor yn 1979 a dilyn cwrs wnaeth arwain at Ph.D. mewn beio-cemeg. Yn syth, meistrioli y Gymraeg ac erbyn hyn yn ennill ei bara menynd trwy diwtora dysgu Cymraeg i oedolion yn Adran Gydol Oes y Brifysgol. Balchder mawr iddi yw mai ei mab hynaf Robin yw Cadeirydd presennol Cymdeithas yr Iaith.

Priodi, magu teulu ac ymgartrefu ym Mynydd Llandegai gyda panorama Eryri yn ei swyno a’i denu. Yn fuan daeth i barchu cadernid, harddwch a symbolaeth y mynyddoedd i’r boblogaeth lleol. Yn ei geiriau ei hun mae bellach yn “perthyn i’r ardal.”

Fel llwybr y Zig-Zag sy’n mynd heibio talcen ei thŷ meistrolodd hithau lwybrau troellog y brynau. At yr elfen ffitrwydd o redeg mynydd, cymwyswyd yr elfen gystadleuol gynhenid. Ymunodd a chlwb rhedeg Eryri, ac yn syth gwneud ei marc. Herio’r brynau â’r elfen gystadleuol ar dân. Cystadlu yn Râs yr Wyddfa ac hefyd ym Marathon Eryri, ac mae ei diolch yn fawr i’r llu o wirfoddolwyr lleol sydd wedi sefydlu Eryri fel un o ganolfannau pwysicaf rhedeg mynydd yn Ewrop bellach.

Uchafbwynt ei gyrfa rhedeg oedd ennill Pencampwriaeth Oedranol Prydain mewn râs a gynhaliwyd ar Moel Hebog.

Yn 40 oed gwnaeth benderfyniad pwysig. Rhaid oedd ffrwyno yr elfen gystadleuol ac eto cynnal y ffitrwydd a’r wefr o herio’r brynau. O barchu’r corff teimlai y gallai wireddu’r freuddwyd o “ddal i redeg yn 90.” Annodd peidio ei chredu. Yma cyfeiriodd at un mae’n edmygu’n fawr sef Colin Donnelly un o eiconau clwb rhedeg Eryri.

Ond agor drws newydd wnaeth hyn. Trwy’r cyfnod rhaid oedd hefyd gweithio ei rhaglen hyfforddi ei hun gan fod y pump o blant i’w magu a’u meithrin. Yr atyniad nesaf oedd un o ddiddordebau bore oes, sef nofio. Ers sawl blwyddyn bellach mae’n mynd pedwar

bore’r wythnos yn y bore bach, - tua 5 a.m.- ac un noson draw i bwl nofio Bangor. Er ei bod yn arbennigo yn y dull rhydd, mae’n gweld hi’n bwysig i ymarfer y dulliau eraill gan eu bod yn ystwytho holl gyhyrau’r corff. Yma eto daeth llwyddiant.

Ym Mhencampwriaeth Cymru 45+ chwalodd record y 1500m dull rhydd. Cymerir yr amseroedd dros 100/200/400 ac 800m yn ystod y râs a darganfod ei bod wedi torri y record dros y pellteroedd yma hefyd. Fel rhan o dîm nofio Meistri Arfon cipwyd sawl medal aur unigol a thîm dros y blynyddoedd, ac ambell i record. Mae newydd ddychwelyd o Abertawe gyda llond llaw o fedalau o Bencampwriaeth eleni.

Ei hoff bwl? Heb amheuaeth, Sheffield. Yma daeth ei hawr fawr, neu’n hytrach cyfnod o 20munud a 2 eiliad. Record Prydain (oedran 50+) am y 1500m dull rhydd, ac mae’r record yn dal i sefyll ers pedair blynedd. Chwalwyd 40 eiliad o’r hen record. Tipyn o gamp. Mae eisioes yn llygadu dychwelyd i Sheffield ac ymgiprys am Bencampwriaeth Prydain yn yr oedran 55+. Mae cynnal y fath safon yn golygu nofio rhyw 25Km pob wythnos. Dyna yw ymroddiad. Ar hyn o bryd mae ei hamser gorau 40 eiliad tu allan i record Prydain.

Ar ben hyn mae’r beicio a’r cystadlu yng Nghystadlaethau Treiathalon a’r Slateman.

Her arbennig yw nofio yn oerfel Llyn Padarn. Mae’n hynod falch o’r elfen leol a’r awyrgylch Gymreig i’r cystadlaethau hyn, a diolch arbennig dros eu datblygiad i Tim Lloyd a’r criw gweithgar.

Ond beth wedyn, pan ddaw y rhedeg a’r nofio cystadleuol i ben. Efallai bod clw yn niddordebau a meistrolaeth y plant yn y maes cerddorol. Yn ei hieuenctid y cello oedd diddordeb Stel, ac yno yr hoffai ddychwelyd. Ensemble teuluol fydd hi efallai.

Dyna fraslun felly o yrfa merch ryfeddol iawn. Yn sicr, “hi ei hun yw’r olwynion,” yn mynnu’r ymroddiad a’r safon. Sawl awr sydd yn ei dydd hi dywedwch? Fel y lleill diolch am orig ryfeddol yn ei chwmni.

Ras Feics y “Tour of Britain”.

Fel roedd yr “Eco” yn mynd i’r wasg cawsom y newyddion y bydd cymal o’r ras enwog hon yn diweddau yn Llanberis ar Fedi 18ed eleni. Dyma gadarnhau unwaith yn rhagor mai

yma, ym mro’r “Eco” mae prifddinas chwaraeon antur Cymru os nad Prydain.

LLONGYFARCHIADAU

Braf cyhoeddi fod Iolo Huws o Fethel wedi ennill ei le yng ngharfan pel-droed -18 Ysgolion Cymru. Ar y fainc bu Iolo yn ystod y ddwy fuddugoliaeth o 4-1 yn erbyn Lloegr a 2-0 yn erbyn yr Alban. Siawns y daw ei gyfle yn y ddwy gêm sy'n weddill yn erbyn Gogledd Iwerddon yn Llanelli, neu Eire yn Nulyn. Ac wrth gwrs mae ganddo flwyddyn arall yn yr oedran yma. Dymuniadau gorau iddo, ac i'w dîm Ysgol ym Mrynrefail sy'n dal i ymgiprys am Gwpan Cymru.

APÊL

Daeth yr apêl gan Clive James un o hoelion wyth clwb rygbi Caernarfon, ein clwb mabwysiedig ers sawl blwyddyn. Yn Hydref 2013 bydd y clwb yn dathlu ei benblwydd yn 40 oed. Yn naturiol edrychir ymlaen i'r dathliad, o gofio'r camau breision a wnaeth y clwb dros y cyfnod, ar ac oddiar y cae. Mae Clive yn estyn gwahoddiad i gyn-chwaraewyr a chefnogwyr y clwb i gyfarfod anffurfiol i geisio cynllunio strwythr ar gyfer y dathliad. Cynhelir y cyfarfod ar nos Fercher, Ebrill 17, yng Nghlwb Rygbi Caernarfon ar y Morfa.

EIN CLYBIAU LLEOL

Y cwpanau fy'n denu'r sylw yn ystod y mis diwethaf. Bethel fydd y mwyaf siomedig. Aeth ambell i benderfyniad yn eu herbyn draw yn Llanerchymedd yng Nghwpan Gwynedd. Mwy anffodus oeddent draw yn Llandudno o golli o 3-2 wedi amser ychwanegol yn erbyn Llansannan yn rownd gyn-derfynol Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru. Roedd eu perfformiad ar y noson yn haeddu gwell. Gobeithio daw sawl buddugoliaeth iddynt yn eu gemau cynghrair i adlewyrchu'r gwaith da mae Iolo a'r chwaraewyr wedi ei wneud i gynnal y clwb. Maent yn un o'r timau mwyaf ymosodol yn y gynghrair a dylsent orffen yn weddol uchel ar ddiwedd y tymor.

Mae Llanrug wedi agor tipyn o fwllch rhyngddynt â Llanberis yn y gynghrair, a gwahanol fu'r stori yng nghemau Cwpan Mawddach. Yn rownd yr with olaf curodd Llanrug dim y Cyffordd o 4-1, tra colli adref i Lanrwst o 3-4 wnaeth Llanberis. Yn y rownd gyn-derfynol bydd hogiau Eithin Duon yn herio Lanrwst, ac os ennill efallai wynebu'r Cofis yn y rownd derfynol. Dyna fuasai'n gem i edrych ymlaen iddi.

Braf cyfnodi fod Marcus Orlick dros ei anaf ac wedi arwyddo i Lanberis. Bydd yn gyffaeliad rwyn siwr.

Dal mae rhediad llwyddianus Waunfawr, ac erbyn hyn yn drydydd yng Nghyngrair Gwynedd. Mae cyfle da ganddynt i orffen yn ail tu ôl i Fae Trearddur sy'n léd cae ar y blaen. Gall y Beganifs fod yn bles iawn â'u tymor cyntaf ar y lefel yma.

RHEDEG MYNYDD

TYMORY RHEDEG MYNYDD YN AIL-DDECHRAU.

Ras Moel-y-ci o Dregarth yw ras gyntaf y tymor rhedeg mynydd yn yr ardal, ac fel arfer roedd y gystadleuaeth yn ffyrnig, gyda bron iawn i gant a hanner o redwyr yn herio'r cwrs. Daeth Dylan Jones (Deiniolen gynt) yn ail.

Ar ddechrau Mawrth, Rhosgadfan oedd y man ymgynnull ar gyfer Ras Moel Tryfan; hen ras wedi ei hail-gychwyn ar ôl nifer o flynyddoedd segur.

Ddiwedd Mawrth cynhelir ras pedwar copa'r Mynydd Mawr o'r Fron, ond bydd prysurdeb arferol y tymor yn cynyddu yn ystod Ebrill gyda chychwyn ugeinfed cyfres Rasys Nos Fawrth, yn cael eu noddi gan gwmni Joe Brown, Llanberis. Dyma'r dyddiadau a'r lleoliadau ar gyfer mis Ebrill (a chofiwch fod rasys ar gyfer plant o 6 oed hyd 15 oed yn rhan o'r gyfres): Ebrill 2 – Moel Tryfan o Ysgol y Fron. Ebrill 9 – Y Foel Lus o Ddwygyfylchi. Ebrill 16 – Pen Dinas, Nant Peris o'r dafarn leol. Ebrill 23 – Aber o Gaffi'r hen Felin, Abergwyngregyn. Bydd y ras gyntaf yn cychwyn am 7.00pm a gweddill y gyfres am 7.15 pm. Pris i oedolion yw £1.50 a £1.00 i blant. Bu dros ddau gant yn cystadlu y llynedd, a hanner cant o blant – ac mae'n dal i gynyddu mewn poblogrwydd.

SAWRU'RACHLYSUR

Ni ymalaethaf ddim ar ganlyniad gwych ein tim cenedlaethol yn stadiwm y Mileniwm. Digon yw dweud bydd sawl agwedd o'r diwrnod anhygoel ar ac oddiar y cae yn aros yn y cof. Trafeiliais draw i Gaeredin ymysg y miloedd o gyd-Gymry. Mae'n anhygoel faint sy'n cefnogi cystadleuaeth y Chwe Gwlad a Chymru wrth gwrs, o gofio, bod miloedd yn teithio na fyddent yn y gêm. Yn sicr roedd y tair fuddugoliaeth oddi cartref yn gosod sylfaen hyderus ar gyfer y gêm gorfforol olaf. Hoffwn wneud un sylw ar gyfer y daith i'r Alban. Yno gallwn brynnu Y Scotsman, Y Scottish Mirror, Sun, Times, Independent. Ie, fersiynau yr Alban gyda'u llu o golofnau yn trafod chwaraeon yn yr Alban. Un colofn oedd yn trafod y campau yn Lloegr. Mor wahanol yng Nghymru. Faint o ofod gaiff Cynghrair Genedlaethol Cymru yn Sun a'r Mirror sy'n britho y mwyafrif o gartrefi Cymru. Yn y Daily Post ceir mwy o drafod ar Lerpwl, Everton a Man U na thimau Cymru yn eu cyfanrwydd.

Mor wag yw'r gefnogaeth Wales! Wales! sy'n llifeirio mor achlysurol drwy'r tymor.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

- * Cig o ffermydd lleol
- * Partion rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG


Y DYN IG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Pryd i Bawb
Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon

- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

grid 76
dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Chwaraeon

EIRAFYRDDIO

Daeth yr eira a'i fendithion i griw o Lanrug a fanteisiodd ar y trwch diweddar a mwynhau camp go anarferol. Dwn i ddim a'i eirafyrddio yw'r term Cymraeg am 'snowboarding' – os gwyddoch am un gwell, gadewch i ni wybod. Ond roedd y wefr o sglefrio i lawr llethrau Moel Cynghorion yn werth yr holl ddringo llafurus i gyrraedd y copa.



Gwanwyn gaeafol i Ras Bwlch Maesgwm.

Yn dilyn pythefnos o dywydd eithaf tyner a sych, daeth y gaeaf yn ôl ar chwap fore Sul yr ail ar bymtheg o Fawrth. Dyma'r tro cyntaf i'r ras hon gael ei chynnal, ac fe'i trefnwyd gan Stephen Edwards a chriw Ras yr Wyddfa, gyda chefnogaeth gan Stephen Roberts o Gaffi Penceunant, Llanberis. Mentrodd hanner cant a phedwar o redwyr i'r gâd; rhai ohonynt wedi teithio mor bell a Stockport a Llanbedr Pont Steffan. Tipyn o sioc i'r mwyafrif oedd darganfod fod trwch pedair modfedd o eira ym mhen Bwlch Maesgwm, ac yn sicr, doedd yr amgylchiadau ddim yn ffafriol i amser cyflym am y pellter o ddeg cilomedr. Russell Bentley o glwb athletau Caint yn ne-ddwyrain Lloegr oedd yr enillydd, ond doedd o ddim wedi teithio yma yr holl ffordd oddi yno! Mae bellach yn byw yn ardal Beddgelert, a dyma'r ail ras leol iddo'i hennill yn ystod mis Mawrth. Yn sicr, bydd hwn yn enw i wyllo allan amdano yn rasys mynydd yr ardal dros y misoedd nesaf. Roedd ei amser o 39 munud bron i bum munud yn gyflymach na'r ail redwr. Ian Jones o Lanberis oedd y rhedwr lleol cyntaf, yn y seithfed safle; ond roedd Bryn Williams a Llifon Foulkes yn dynn wrth ei sodlau; ill dau hefyd o Lanberis. Daeth Rhys James o Ddeiniolen yn bymthegfed ac yn gyntaf yn yr adran iau, a Gwyn Jones, Llanberis a Phil Jones, Waunfawr yn gyntaf yn yr oedrannau dros hanner cant a dros 60 oed. Erbyn y flwyddyn nesaf, y gobaith yw ymestyn y cwrs i gynnwys copa'r Foel Goch a chefn Cefn Drum. Bydd hynny'n sicr yn debygol o apelio mwy i redwyr mynydd, a dichon mai tyfu yn ei phoblogrwydd a wnaiff y ras – beth bynnag fo'r tywydd!

Llwyddiant i ferch o Ddinorwig.

Mae Catrin Donnelly ar ei blwyddyn gyntaf yn Ysgol Brynrefail, ac yn ystod y mis diwethaf gwnaeth ei marc mewn sawl camp ym myd chwaraeon. Yng nghystadleuthau traws-gwlad ysgolion Arfon daeth y ferch gyntaf ym mlwyddyn 7. Rhoes hyn yr hawl iddi gynrychioli'r ardal ym mhencampwriaethau Gwynedd a gynhaliwyd yn Nolgellau. Daeth yn ail yn y rasys rheini, gan ennill yr hawl i gystadlu ym mhencampwriaethau ysgolion Cymru yn Aberhonddu. Mewn cystadleuaeth galed ar faes dieithr, gorffennodd o fewn y deg ar hugain cyntaf. O fewn ychydig wythnosau roedd yn cystadlu ar ran yr ysgol mewn camp arall, sef triathlon. Credir mai dyma'r tro cyntaf i ysgolion uwchradd Gwynedd gystadlu'n erbyn ei gilydd yn y gamp hon, sy'n brysur ennill poblogrwydd. Mae'n gofyn am sgiliau nofio, beicio a rhedeg, ac fe'i cynhaliwyd yng Nghaernarfon. Unwaith yn rhagor, daeth Catrin i'r brig gan ennill y categori i enethod blwyddyn 7. Bydd angen gwyllo datblygiad yr athletwraig ifanc hon o Ddinorwig.



Catrin ar y chwith